Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Mawrhydi y Parc (STIEM)

gan Brif Arolygydd Carchardai EM

28 Mawrth – 8 Ebrill 2022

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Gwybodaeth am Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc 4

Section 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau 6

Section 2 Arweinyddiaeth 16

Section 3 Diogelwch 18

Section 4 Gofal 26

Section 5 Gweithgarwch pwrpasol 38

Section 6 Ailsefydlu 46

Section 7 Crynodeb o'r prif bryderon ac argymhellion 53

Section 8 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu a chraffu llawn diwethaf 55

Appendix I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau 59

Appendix II Rhestr termau 62

Appendix III Rhagor o adnoddau 64

Cyflwyniad

Mae STIEM Parc yn gyfleuster ar gyfer hyd at 60 o bobl ifanc sydd wedi'i leoli yng ngharchar y Parc ger Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru, er ei fod yn cael ei reoli fel endid ar wahân. Dan gontract gan y cwmni preifat G4S, mae'r arolygiad hwn unwaith eto wedi dangos y gellid dadlau mai'r cyfleuster hwn yw'r sefydliad troseddwyr ifanc sy'n perfformio orau yn y wlad. Yn erbyn pob un o'n pedwar prawf carchar iach, roeddem yn barnu bod y canlyniadau'n dda, sef ein hasesiad uchaf.

Yn sail i lwyddiant y Parc roedd y berthynas ragorol rhwng y bobl ifanc a'r staff a oedd yn gofalu amdanynt. Roedd y diwylliant yn ymwneud ag ymgysylltu, disgwyliadau uchel a chymell ymddygiad da. Roedd staff yn dangos safonau uchel o ran eu hymddygiad eu hunain ac yn barod i fynd i'r afael â thramgwyddo ymysg pobl ifanc pan oeddent yn ei weld. Yn ein harolwg, ni ddywedodd unrhyw blant eu bod yn teimlo'n anniogel ac yn erbyn bron pob mesur diogelwch rydym yn edrych arno, fel faint o drais neu rym sy'n cael ei ddefnyddio, roedd y lefelau'n is nag mewn sefydliadau tebyg.

Roedd amser allan o'r gell yn llawer gwell nag a welwn mewn mannau eraill, gyda phlant yn cael eu rhyddhau am rhwng wyth ac 11 awr y dydd yn ystod yr wythnos ac am dros bedair awr ar benwythnosau. Yn yr un modd, soniodd ein cydweithwyr yn Estyn yn gadarnhaol iawn am ansawdd yr addysg sydd ar gael ac, yn hollbwysig, y mynediad a oedd gan bobl ifanc i'r addysg hon. Er clod mawr i'r arweinwyr a'r rheolwyr, roedd y safon hon o drefn, ar ôl defnyddio trefniadau rheoli risg synhwyrol, wedi cael ei chynnal drwy gydol y rhan fwyaf o'r pandemig.

Roedd y sefydliad hefyd wedi rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo cysylltiadau teuluol, elfen hollbwysig i les plant ac adsefydlu ac ailsefydlu llwyddiannus. Roedd pob person ifanc, ac eithrio un, a oedd yn cael ei gadw yn y Parc dros 50 milltir o'r cartref, ac eto cafwyd amrywiaeth o gynlluniau, gan gynnwys ymweliadau gyda'r nos ac ar benwythnosau, a oedd yn annog cyswllt â'r teulu ac a oedd yn eistedd ochr yn ochr â gwaith trawiadol arall i gefnogi rheoli dedfrydau a chynllunio ailsefydlu.

Roedd Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn sefydliad a oedd yn cael ei arwain yn dda iawn. Roedd y rheolwyr yn amlwg, roedd y morâl yn uchel, ac roedd mwyafrif llethol y staff yn cefnogi blaenoriaethau'r sefydliad, gan gynnwys ei ymrwymiad i'r bobl ifanc a oedd yn cael eu dal yno. Yr un cafeat oedd, yn unol â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill, bod nifer y plant a oedd yn cael eu cadw ar adeg ein harolwg yn weddol isel, a gyda chofrestr uwch, mae'n debygol y byddai cynnal y safonau uchel hyn yn cael eu profi. Serch hynny, o ran ei berfformiad presennol, mae'r Parc yn gosod safon ar gyfer rheoli plant a phobl ifanc yn y ddalfa. Mae'r cyfarwyddwr a'i staff i'w llongyfarch ar eu cyflawniadau.

Charlie Taylor
Prif Arolygydd Carchardai EM
Mai 2022

Gwybodaeth am Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc

Tasg y sefydliad
Cadw plant rhwng 15 ac 17 oed sydd wedi'u dedfrydu a'u remandio.

Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler y Rhestr termau)
Plant a oedd yn cael eu cadw adeg yr arolygiad: 20
Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 64
Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 60
Capasiti gweithredol: 60

Poblogaeth y sefydliad
Rhwng mis Mawrth 2021 a mis Chwefror 2022:

- Derbyniodd 59 o blant, pump o blant y mis ar gyfartaledd
- Un plentyn tramor cenedlaethol adeg yr arolygiad
- Cyfartaledd o 53% o blant o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig
- Cyfartaledd o 17% o blant ar remand
- Rhyddhau 46 o blant i'r gymuned
- Cyfartaledd o 43% o blant yng ngofal eu hawdurdod lleol cyn eu cadw yn y ddalfa

Statws y sefydliad (cyhoeddus neu breifat) a darparwyr allweddol
G4S Preifat

Darparwr iechyd corfforol: Gwasanaethau Iechyd G4S y DU
Darparwr iechyd meddwl: Gwasanaethau Iechyd Sylfaenol G4S y DU
Darparwr triniaeth camddefnyddio sylweddau G4S
Darparwr fframwaith addysg mewn carchardai: G4S
Contractwr hebrwng: GeoAmey

Adran/Grŵp Carchardai
Y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa

Hanes yn gryno
Agorodd yr uned blant yng Ngharchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym mis Mawrth 2002 fel cyfleuster 28 cell ar gyfer plant rhwng 15 a 18 oed ar remand. Ym mis Hydref 2004, ehangodd i ddarparu llety i 36 o blant rhwng 15 a 18 oed, ar remand ac wedi'u dedfrydu, gydag ehangiad pellach ym mis Chwefror 2007 i 64 o blant. I ddechrau, roedd yr uned yn gartref i blant Cymru ond ers mis Mawrth 2013 mae dalgylch y llys wedi cynnwys Cymru a De-orllewin Lloegr.

Disgrifiad byr o unedau preswyl
Mae'r uned plant yn cynnwys dwy uned llety gyda chelloedd deiliadaeth sengl a dwbl. Mae Echo One yn uned 24 gwely wedi'i rhannu dros ddwy lefel ac mae gan Golf One gapasiti o 36 ar un lefel. Mae cawod a mannau cymunedol yn y ddwy uned.

Enw’r cyfarwyddwr a dyddiad yn y swydd
Janet Wallsgrove, Mehefin 2006 i nawr

Cyfarwyddwr y Grŵp Carchardai
Heather Whitehead

Cadeirydd Bwrdd Monitro Annibynnol
Kelvin Hughes

Dyddiad yr arolygiad diwethaf:
Tachwedd 2019

Section 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

1.1 Roeddem wedi archwilio STIEM y Parc ddiwethaf yn 2019, ac wedi gwneud 16 o argymhellion, ac roedd pedwar ohonynt yn ymwneud â meysydd a oedd yn peri pryder allweddol. Derbyniodd y sefydliad 11 o'r argymhellion yn llawn a derbyniodd dri yn rhannol (neu'n ddibynnol ar adnoddau).

1.2 Ym mis Ebrill 2021, yn ystod pandemig COVID-19, fe wnaethom gynnal ymweliad craffu yn y sefydliad. Gwnaethom ddau argymhelliad am feysydd oedd yn peri pryder allweddol.

1.3 Mae Adran 8 yn cynnwys rhestr lawn o'r argymhellion a wnaethpwyd yn ystod yr ymweliad arolygu a chraffu llawn diwethaf a'r cynnydd yn eu herbyn.

Cynnydd gyda'r pryderon allweddol ac argymhellion o'r arolygiad llawn

1.4 Cynhaliwyd ein harolygiad diwethaf o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc cyn pandemig COVID-19, ac roedd yr argymhellion yn yr adroddiad hwnnw'n canolbwyntio ar feysydd pryder a oedd yn effeithio ar ganlyniadau i blant ar y pryd. Er ein bod yn cydnabod y bydd yr heriau o gadw plant yn ddiogel yn ystod COVID-19 wedi newid ffocws llawer o arweinwyr carchardai, credwn ei bod yn bwysig adrodd ar gynnydd mewn meysydd allweddol sy'n achosi pryder er mwyn helpu arweinwyr i barhau i hybu gwelliant

1.5 Yn ein harolwg llawn diwethaf, gwnaethom un argymhelliad ynghylch pryderon allweddol ym maes diogelwch. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni.

1.6 Gwnaethom ddau argymhelliad am bryderon allweddol o ran parch. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd y ddau argymhelliad hyn wedi'u cyflawni.

1.7 Gwnaethom un argymhelliad ynghylch pryderon allweddol o ran ailsefydlu. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni.

Cynnydd ar argymhellion yr ymweliad craffu

1.8 Yn ystod y pandemig, fe wnaethom gynnal ymweliad craffu â Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc. Roedd yr ymweliadau craffu yn canolbwyntio ar sefydliadau unigol a sut roeddent yn gwella ar ôl heriau pandemig COVID-19. Roeddent yn fyrrach nag arolygiadau llawn ac yn edrych ar feysydd allweddol yn seiliedig ar ein *Disgwyliadau* presennol o ran hawliau dynol. I gael rhagor o wybodaeth am Ymweliadau Craffu, ewch i https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-hmi-prisons/covid-19/scrutiny-visits/.

1.9 Yn yr Ymweliad Craffu, gwnaethom rai argymhellion ynghylch meysydd sy'n peri pryder allweddol. Fel rhan o'r arolygiad hwn, rydym wedi dilyn yr argymhellion hynny i helpu i asesu pa mor angenrheidiol a chymesur yw'r mesurau a gymerwyd mewn ymateb i COVID-19, pa mor dda mae'r sefydliad yn dychwelyd at drefn adsefydlu adeiladol, ac i sicrhau tryloywder ynghylch adferiad y sefydliad ar ôl COVID-19.

1.10 Gwnaethom ddau argymhelliad am feysydd oedd yn peri pryder allweddol. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod un o'r argymhellion wedi'i gyflawni ac nad oedd un wedi'i gyflawni.

Canlyniadau i blant

1.11 Rydym yn asesu'r canlyniadau i blant yn erbyn pedwar prawf sefydliad iach (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y sefydliad (gweler Section 2).

1.12 Yn yr arolygiad hwn o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc, gwelsom fod y canlyniadau i blant wedi aros yr un fath mewn dau garchar iach a'u bod wedi gwella mewn dau.

1.13 Mae'r penderfyniadau hyn yn ceisio gwneud asesiad gwrthrychol o'r canlyniadau y mae'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth yn eu profi, ac maent wedi ystyried adferiad y sefydliad o COVID-19 yn ogystal â'r 'cam trefniadau' lle'r oedd y sefydliad yn gweithredu, fel yr amlinellir yn Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ar gyfer gwasanaethau a threfniadau carchardai.

Ffigur 1: Canlyniadau sefydliad iach STIEM y Parc 2019 a 2022



Diogelwch

Yn yr arolygiad diwethaf o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc yn 2019, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn weddol dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y canlyniadau i blant bellach yn dda.

1.14 Roedd staff a oedd yn cynnal cyfweliadau diogelwch effeithiol yn cwrdd â phlant a oedd newydd gyrraedd yn y dderbynfa. Dywedodd naw deg y cant o blant wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf yn y Parc. Roedd y rhaglen gynefino'n dda ac roedd derbyniadau newydd yn cael pedair i bum awr y tu allan i'w celloedd bob dydd.

1.15 Yn ein harolwg, ni ddywedodd unrhyw blant eu bod yn teimlo'n anniogel adeg yr arolygiad a chadarnhaodd y plant hyn mewn cyfweliadau preifat gydag arolygwyr. Roedd y diwylliant cadarnhaol yn y grŵp staff, disgwyliadau uchel o blant, perthnasoedd da iawn a gwaith amlddisgyblaethol effeithiol yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu plant. Roedd atgyfeiriadau amddiffyn a diogelu plant yn cael eu rheoli'n dda a'u cyfeirio'n briodol ar gyfer ymchwiliad allanol, ond bu oedi wrth roi gwybod i'r carchar a'r plant am ganlyniadau terfynol.

1.16 Roedd y gofal i blant a oedd mewn perygl o hunan-niweidio yn dda ac yn canolbwyntio'n briodol ar ddarparu addysg, ymgysylltu â staff a, lle bo hynny'n briodol, cefnogaeth gan aelodau o'r teulu a gweithwyr tîm troseddau ieuenctid.

1.17 Roedd staff yn dangos safonau ymddygiad uchel ac yn helpu plant i ymddwyn yn dda. Gwelsom ymddygiad da ar bob agwedd ar fywyd y Parc. Roedd lefelau trais yn is nag yn yr arolygiad diwethaf a gwnaethpwyd ymdrechion da i ddeall a datrys gwrthdaro rhwng plant. Disgrifiodd y plant staff yn camu i mewn yn gyflym pan oedd trais yn cychwyn a bod cyfryngu'n digwydd ar ôl ymladd. Fodd bynnag, roedd y gwrthdaro parhaus rhwng plant yn y ddwy uned breswyl yn niweidiol i'r ethos cyffredinol ac ni allai'r plant a gafodd eu cyfweld yn ystod yr arolygiad esbonio pam yr oedd problemau rhwng y ddwy uned. Gwnaeth yr arweinwyr ddefnydd da o ddata i oleuo eu dealltwriaeth o fwlio a thrais.

1.18 Defnyddiwyd y cynllun cymhellion yn dda i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a hamdden a byw yn y gymuned. Roedd y rhan fwyaf o ymddygiad gwael lefel isel yn cael ei herio'n effeithiol gan staff a defnyddiwyd prosesau dyfarnu ffurfiol ar gyfer achosion mwy difrifol o dorri rheolau.

1.19 Roedd lefelau grym wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf ac roedd y rhan fwyaf o'r grym a ddefnyddiwyd yn gymharol isel. Roedd y gwaith o oruchwylio'r defnydd o rym yn dda ar y cyfan.

1.20 Ychydig o blant oedd wedi cael eu gwahanu am resymau trefn neu ddisgyblaeth dda a, lle bo hynny'n bosibl, cafodd effaith gwahanu ei lliniaru gan drefn ddyddiol bwrpasol a oedd yn adlewyrchu effaith plant eraill yn y Parc. Roedd gan blant a oedd wedi'u gwahanu oddi wrth yr uned cymorth dwys drefn llawer mwy cyfyngedig, ond pur anaml y defnyddiwyd y cyfleuster hwn. Roeddem yn poeni bod plentyn yr aseswyd bod angen gwely iechyd meddwl haen pedwar arno wedi cael ei leoli yn y Parc a bu'n byw yn yr ISU am 14 diwrnod yn 2021 cyn trefnu ei fod yn cael ei symud i'r ysbyty.

Gofal

Yn yr arolygiad diwethaf o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc yn 2019, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn gwelsom fod y canlyniadau i blant yn parhau yn dda.

1.21 Roedd y berthynas rhwng y staff a'r plant yn dda. Roedd y plant y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol am eu perthynas â'r staff ac yn ymateb yn dda iawn i ethos meithringar a gofalgar yr uned. Bu buddsoddiad sylweddol yng nghynllun cymorth y ddalfa (CuSP) ac roedd y swyddogion a'r plant yn teimlo bod y cynllun yn fuddiol.

1.22 Roedd yr ardaloedd cymunedol yn lân, ac roedd yr offer mewn cyflwr da ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y celloedd mewn cyflwr da a chydag anogaeth y staff, roedd y plant yn eu cadw'n lân ac yn daclus. Fodd bynnag, roedd y ffenestri mewn cyflwr gwael. Roedd mynediad da at gawodydd, cyfleusterau golchi dillad ac eiddo. Cafwyd 12 cwyn yn ystod y chwe mis diwethaf, ac roedd pob un ohonynt wedi cael eu hymchwilio'n dda, ac roedd yr ymatebion i'r plentyn yn barchus. Nid oedd yr ymgynghori gyda phlant yn ymatebol.

1.23 Roedd y bwyd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Roedd faint o fwyd oedd ar gael yn dda, ac roedd dewis poeth ar gael i ginio a gyda'r nos. Roedd y plant yn cael digonedd o gyfleoedd i goginio iddyn nhw eu hunain. Roedd y plant yn gallu bwyta pob pryd yn y mannau cymunedol ac ymgysylltu â chyfoedion a staff. Roedd y cinio a'r pryd nos yn cael ei weini gan uwch reolwyr, oedd yn rhoi amser iddynt ymgysylltu â'r plant.

1.24 Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw arweinydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyfrifol am y maes hwn, ond datblygwyd rhai cynlluniau diddorol i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Roedd nifer dda yn bresennol yn yr hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff ac roedd y berthynas gadarnhaol rhwng y staff a'r plant yn lliniaru'r bwlch yn y ddarpariaeth. Roedd data da'n cael ei gasglu, ond prin oedd y dadansoddiad a'r cynlluniau gweithredu. Cafwyd dwy gŵyn am gamwahaniaethu yn ystod y chwe mis diwethaf, a deliwyd yn dda â'r naill a'r llall.

1.25 Ychydig iawn o oruchwyliaeth a llywodraethu a gafwyd yn yr uned plant gan uwch reolwyr gofal iechyd. Fe wnaethom godi hyn gyda rheolwyr yn ystod yr arolygiad ac fe wnaethant ymateb yn briodol. Roedd y ddwy nyrs staff llawn cymhelliant yn darparu gofal clinigol medrus i'r plant, ac roedd ganddynt berthynas dda â nhw. Roedd mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd yn dda. Ar ôl cyfnod hir o absenoldeb, roedd y Gwasanaeth Ymgynghori a Thriniaeth Fforensig ar gyfer y Glasoed wedi dychwelyd ar y safle ym mis Chwefror 2022 ar ôl darparu gwasanaethau'n rhithiol yn ystod llawer o gyfnod y pandemig. Nid oedd gan staff FACTS fynediad cyson at SystmOne ac ni chwblhawyd cofnodion clinigol yn brydlon. Bu oedi weithiau wrth geisio lleddfu poen dros y penwythnos a thros nos.

Gweithgarwch pwrpasol

Yn yr arolygiad diwethaf o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc yn 2019, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn gwelsom fod y canlyniadau i blant yn parhau yn dda.

1.26 Roedd amser allan o'r gell yn llawer gwell nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd y rhan fwyaf o blant y tu allan i'w cell am rhwng wyth ac 11 awr y dydd yn ystod yr wythnos a rhwng pedair a chwe awr y dydd ar y penwythnos. Roedd y plant yn cael addysg gyda'i gilydd ar foreau a phrynhawniau yn ystod yr wythnos, gan fwyta gyda'i gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi fel gwyddbwyll, pŵl a thwrnameintiau pêl-droed.

1.27 Roedd gan y plant fynediad at lyfrgell wedi'i stocio'n dda, ac roedd y llyfrgellydd yn ymweld unwaith yr wythnos i siarad â phob plentyn. Roedd y rhan fwyaf o blant yn ymweld â'r gampfa bob dydd ac roedd pedwar swyddog Addysg Gorfforol yn darparu mynediad at ystod eang o gymwysterau a gweithgareddau.

1.28 Datblygodd bron pob un o'r plant sgiliau a gwybodaeth mewn dosbarthiadau a oedd yn gwella eu cyflogadwyedd ac yn eu galluogi i ennill ystod dda o gymwysterau. Gwnaethant gynnydd da o ran gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn aml o ddechrau isel iawn. Roedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheini o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn perfformio'n dda o'u cymharu â dysgwyr yr uned drwyddi draw. Roedd presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad yn y dosbarth yn ardderchog.

1.29 Roedd athrawon yn parchu plant ac yn ymddwyn fel modelau rôl da yn y ffordd roedden nhw'n siarad ac yn ymgysylltu â nhw. Roedd gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac roedd bron pob plentyn yn ymddwyn yn barchus. Roedd y cwricwlwm yn cynnig ystod eang o bynciau a gweithgareddau ar ôl eu rhyddhau.

1.30 Roedd athrawon yn deall anghenion dysgwyr yn dda ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm gydag arbenigwyr anghenion dysgu ychwanegol i ddarparu cymorth cadarn, unigol i blant. Defnyddiodd athrawon ystod dda o sgiliau addysgu i ymgysylltu, cefnogi ac asesu dysgwyr.

1.31 Aseswyd pob plentyn yn brydlon ar ôl iddynt gyrraedd er mwyn pennu lefelau llythrennedd a rhifedd a chanfod anghenion dysgu yn gywir. Cynhaliodd athrawon ragor o adolygiadau diagnostig defnyddiol i wneud yn siŵr bod y cymorth wedi'i dargedu yn diwallu anghenion dysgwyr.

1.32 Roedd y dulliau cyfathrebu yn y tîm addysg a chyda'r uwch reolwyr yn effeithiol iawn wrth ddatblygu rhaglenni wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion plant. Roedd system gwybodaeth reoli a ddatblygwyd o'r newydd wedi cryfhau'r gwaith o fonitro perfformiad. Rhoddodd yr

arweinwyr ystyriaeth briodol i wybodaeth am y farchnad lafur wrth adolygu a chynllunio datblygiad y ddarpariaeth.

Ailsefydlu

Yn yr arolygiad diwethaf o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM y Parc yn 2019, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn weddol dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y canlyniadau i blant bellach yn dda.

1.33 Roedd pob plentyn ond un yn y Parc dros 50 milltir o'i gartref. Roedd rheolwyr wedi blaenoriaethu mynediad sylweddol at alwadau ffôn, galwadau fideo diogel ac ymweliadau, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau. O ganlyniad, roedd plant yn y Parc mewn gwell sefyllfa i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau na phlant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd cefnogaeth dda i dadau newydd a threfnwyd rhaglen o ddigwyddiadau teulu rheolaidd.

1.34 Roedd y gwaith o reoli ailsefydlu yn gwella'n strategol. Roedd y dadansoddiad diweddar o anghenion yn ddefnyddiol ond nid oedd wedi'i ddefnyddio eto i oleuo'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer lleihau aildroseddu. Roedd cynllunio ar gyfer y nifer cynyddol o blant yr oedd angen eu trosglwyddo i garchardai i oedolion yn rhesymol. Cafodd cyrffyw cyfyngu i'r cartref, rhyddhau'n gynnar a rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) eu rheoli'n effeithiol. Nid yw'r gwaith i gefnogi'r nifer cynyddol o blant sydd â dedfrydau tymor hir wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

1.35 Roedd gweithwyr achos y tîm anghenion, ymgysylltu a lles (NEWTs) yn cael cyswllt rheolaidd ac ystyrlon â phlant. Roedd tystiolaeth o'u gwaith ar y Fframwaith Ymgeisio Cyfiawnder Ieuenctid (YJAF) yn dda iawn. Roedd cyfathrebu effeithiol a chyson rhwng NEWTs, timau troseddau ieuenctid, y gwasanaeth prawf, gweithwyr cymdeithasol a rhieni. Roedd cynlluniau dedfryd a remandio'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yr oedd cyfarfodydd adolygu o ansawdd da ac yn aml yn cynnwys teuluoedd. Gwnaeth y plant gynnydd da yn erbyn eu cynlluniau dedfryd, yn enwedig ym maes addysg. Roedd gan arweinwyr gynlluniau i gynyddu'r nifer fach o ymyriadau.

1.36 Roedd rhannu gwybodaeth ar gyfer y nifer cynyddol o blant a oedd yn destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth (MAPPA) yn effeithiol.

1.37 Roedd y gwasanaethau cymdeithasol rhan o fywydau'r rhan fwyaf o blant. Roedd y swydd gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn wag am gyfnod estynedig, ac yn ystod y cyfnod hwnnw yr oedd NEWTs wedi gwneud eu gorau i herio awdurdodau lleol yn effeithiol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hawliau.

1.38 Roedd cyfeiriad y rhan fwyaf o blant wedi'i gadarnhau cyn eu cyfarfod rhyddhau, ond roedd rhai nodiadau cadarnhau hwyr yn dal i gael effaith

negyddol ar gynlluniau plant ar gyfer addysg a chymorth iechyd. Roedd y canlyniadau ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant ar ôl cael eu rhyddhau yn eithaf da ac yn well nag a welwn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill.

Prif bryderon ac argymhellion

1.39 Mae'r prif bryderon ac argymhellion yn nodi'r materion sydd bwysicaf i wella canlyniadau i blant ac fe'u cynlluniwyd i helpu sefydliadau i flaenoriaethu a mynd i'r afael â'r gwendidau mwyaf sylweddol o ran triniaeth ac amodau plant.

1.40 Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi rhai meysydd o bryder allweddol ac rydym wedi gwneud nifer fach o argymhellion ar gyfer y sefydliad er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

1.41 Prif bryder: Nid oedd gan yr uned weithiwr cymdeithasol penodol am gyfnod estynedig. Roedd hyn wedi lleihau'r gefnogaeth a'r eiriolaeth a oedd ar gael i'r gyfran gynyddol fawr o blant a oedd yng ngofal eu hawdurdod lleol neu a oedd yn ymwneud rhywfaint â'r gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd gan reolwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant ffynhonnell o arbenigedd i gyfeirio ati ar y safle.

Prif argymhelliad: Dylai'r uned fod â gweithiwr cymdeithasol penodol ar y safle.
(I'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa)

1.42 Prif bryder: Roedd plentyn sâl iawn yr aseswyd bod angen gwely iechyd meddwl haen pedwar arno wedi cael ei roi yn y Parc a'i gadw ar wahân am 14 diwrnod yn 2021 cyn trefnu ei symud i'r ysbyty.

Prif argymhelliad: Ni ddylid anfon plant sydd angen mynd i'r ysbyty i'r carchar fel man diogel.
(I'r Weinyddiaeth Gyfiawnder)

1.43 Prif bryder: Nid oedd goruchwyliaeth na chyfrifoldeb dros waith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Parc ac roedd gwaith dadansoddi data yn dal yn gyfyngedig. Roedd y plant roedden ni wedi siarad â nhw yn teimlo bod y staff yn eu cefnogi ac roedd eu hanghenion yn cael eu diwallu, ond gallai bylchau yn y ddarpariaeth achosi risgiau.

Prif argymhelliad: Dylai arweinwyr oruchwylio gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol bob amser a dylid craffu'n drylwyr ar ddata i sicrhau bod triniaeth anghyfartal yn cael ei nodi a'i datrys.
(I'r cyfarwyddwr)

1.44 Prif bryder: Nid oedd y gefnogaeth ar gyfer y nifer cynyddol o blant gyda dedfrydau amhenodol neu dymor hir wedi'i datblygu'n ddigonol ac roedd yn gyfyngedig o'i gymharu â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd mwy o blant nag yn yr arolygiad blaenorol yn cael eu cadw ar remand neu'n bwrw dedfrydau am lofruddiaeth neu ymgais i lofruddio.

Prif argymhelliad: Dylid cael ystod briodol o gefnogaeth i gwrdd â risgiau ac anghenion plant sy'n bwrw dedfrydau amhenodol neu hir.
(I'r cyfarwyddwr)

Arferion cadarnhaol nodedig

1.45 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i blant; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu o'r ymarfer neu ei ail-wneud.

1.46 Canfu'r arolygwyr 12 enghraifft o ymarfer cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn.

1.47 Roedd arweinwyr a staff yn gwneud yn siŵr bod plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser allan o'u celloedd, yn cymryd rhan mewn addysg, ymarfer corff neu weithgarwch pwrpasol arall. Roedd yr amser allan o'r gell a'r llu o gyfleoedd i ymgysylltu â staff yn atal diflastod a rhwystredigaeth, gan arwain at ganlyniadau gwell i blant o ran diogelwch a gofal. (Gweler paragraff 3.15)

1.48 Roedd rheolwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol a oedd yn helpu plant i deimlo'n ddiogel. Roeddent yn gwybod bod staff yn disgwyl safonau ymddygiad uchel gan bawb ac y byddai staff yn ymyrryd yn gyflym mewn digwyddiadau ac yn cymryd camau i ddatrys gwrthdaro. (Gweler paragraff 3.23)

1.49 Roedd cyflwyno'r cynllun cymorth yn y ddalfa yn effeithiol eisoes wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant. Roedd gwaith ystyrlon rheolaidd yn cael ei wneud gyda'r plant i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Gweler paragraff 4.2)

1.50 Roedd anogaeth gadarnhaol gan y staff yn sicrhau bod y plant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu celloedd ac yn gallu byw mewn amgylchedd glân a thaclus. (Gweler paragraff 0)

1.51 Roedd uwch reolwyr yn gweini cinio a phrydau gyda'r nos a oedd yn rhoi amser iddynt ryngweithio'n effeithiol gyda'r plant. (Gweler paragraff 4.11)

1.52 Roedd cynnig archwiliad 'person iach' i bob plentyn gyda dedfryd o fwy na phedair blynedd yn fenter gadarnhaol i helpu plant i ddatblygu sgiliau a gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain. (Gweler paragraff 4.41)

1.53 Cyfeiriwyd pob plentyn at yr optegydd i gael asesiad o'u golwg er mwyn canfod a oes angen triniaeth bellach neu sbectol arnynt. (Gweler paragraff 4.45)

1.54 Cyfeiriwyd pob plentyn at y deintydd am asesiad deintyddol ar ôl iddynt gael eu sgrinio wrth gael eu derbyn. (Gweler paragraff 4.73)

1.55 Roedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr lefelau llythrennedd a rhifedd gwael. Aseswyd eu sgiliau sylfaenol yn brydlon ac ymgymerodd yr athrawon ag asesiadau pellach i egluro anghenion y plant. Fe wnaethant ddefnyddio'r wybodaeth hon yn dda i helpu plant i ddatblygu

eu sgiliau. Roedd bron pob un o'r plant wedi gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd o leiaf un lefel tra oeddent mewn addysg a llawer ohonynt wedi codi dwy lefel. (Gweler paragraff 5.7)

1.56 Roedd gan bron pob aelod o staff ddealltwriaeth dda iawn o gynnydd dysgwyr ac anghenion sy'n dod i'r amlwg ym maes addysg. Roeddent yn diweddaru cynlluniau dysgu plant yn rheolaidd ac yn rhannu gwybodaeth er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion pob dysgwr. Arweiniodd hyn at ddarpariaeth dda a oedd yn galluogi pob plentyn i wneud y cynnydd gorau posibl. (Gweler paragraff 5.25)

1.57 Roedd arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod plant yn gallu cynnal perthynas gyda theulu a ffrindiau yn llwyddiannus. Roeddent wedi darparu mynediad trawiadol at alwadau ffôn a mynediad dyddiol at alwadau fideo ac ymweliadau cymdeithasol diogel. (Gweler paragraff 6.2)

1.58 Roedd y canlyniadau ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant ar ôl cael eu rhyddhau yn eithaf da ac yn well nag a welwn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, roedd 19 o blant wedi cael lleoliad mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, gan gynnwys prentisiaethau, coleg ac, mewn rhai achosion, dychwelyd i addysg amser llawn. (Gweler paragraff 6.24)

Section 2 Arweinyddiaeth

Mae arweinwyr yn darparu'r cyfeiriad, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i blant yn y ddalfa. (Am ddiffiniad o arweinwyr, gweler y Rhestr termau.)

2.1 Mae arweinyddiaeth dda yn helpu i sbarduno gwelliant a dylai arwain at ganlyniadau gwell i blant yn y ddalfa. Mae'r naratif hwn yn seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd yr arweinyddiaeth gyda thystiolaeth yn dod o ffynonellau gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu, trafodaethau gyda rhanddeiliaid, a sylwadau a wnaethpwyd yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n arwain at sgôr.

2.2 Roedd arweinwyr yn y Parc wedi gweithio'n dda gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i roi cyfyngiadau COVID-19 cymesur ar waith sydd hefyd yn diogelu lles plant. Roedd arweinwyr lleol wedi gwneud penderfyniadau dewr ac wedi herio canllawiau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn briodol lle byddai wedi arwain at ganlyniadau gwael i blant. Roedd y penderfyniadau hyn yn golygu, yn wahanol i'w cymheiriaid mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill, fod plant yn y Parc wedi cael addysg wyneb yn wyneb, addysg gorfforol a gwasanaeth llyfrgell effeithiol drwy gydol y pandemig. Oherwydd bod y gwasanaethau hyn wedi ailddechrau ym mis Ebrill 2020 ac wedi ehangu dros y ddwy flynedd ddilynol, roedd y plant yn cael llawer mwy o addysg ac amser allan o'r gell nag mewn safleoedd eraill.

2.3 Roedd arweinwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol ymysg staff a oedd yn cefnogi canlyniadau trawiadol ym mhob rhan o'n profion carchar iach. Yn ein harolwg, dywedodd 81% o staff, gan gynnwys 91% o staff gweithredol rheng flaen, fod eu morâl yn uchel neu'n uchel iawn. Roedd y lefel uchel hon o forâl wedi'i chynnal er gwaethaf y gofyniad i staff redeg mwy o wasanaethau i blant nag ar safleoedd eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn siarad yn gadarnhaol am arweinyddiaeth ac roedd 94% yn cefnogi blaenoriaethau'r sefydliad o wella'r gwasanaethau a'r cymorth i blant ymhellach.

2.4 Er nad oedd yr unedau byw wedi'u cynllunio i'w defnyddio gyda phlant, roedd rheolwyr wedi gwneud y gorau o'r seilwaith cyfyngedig drwy gynnal safonau glendid uchel a rhoi mynediad da i blant at hanfodion bywyd bob dydd. Yn ystod ein harolygiad, roedd gwaith yn mynd rhagddo i wella cyfleusterau addysg ac ymyriadau.

2.5 Roedd arweinwyr wedi rhoi'r cynllun cymorth yn y ddalfa (CuSP) ar waith yn ystod y misoedd cyn yr arolygiad. Roedd pob plentyn yn derbyn cefnogaeth reolaidd gan eu swyddog CuSP a chofnodwyd sesiynau CuSP yn dda.

2.6 Roedd arweinwyr a rheolwyr yn deall gwerth cefnogi plant i gynnal cysylltiadau teuluol da. Roeddent wedi blaenoriaethu galwadau fideo diogel (gweler y Rhestr termau) ac ymweliadau wyneb yn wyneb gyda'r

nos ac ar benwythnosau. Roedd plant yn fwy tebygol o weld eu teulu a'u ffrindiau'n rheolaidd nag ar safleoedd eraill.

2.7 Roedd rhai bylchau mewn goruchwyliaeth ffurfiol mewn rhai meysydd, gan gynnwys diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ailsefydlu. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi effeithio'n andwyol ar ganlyniadau i blant ond roedd angen rhoi sylw iddynt.

2.8 Roedd llwyddiannau arweinwyr, rheolwyr a staff y Parc dros y ddwy flynedd diwethaf yn drawiadol ac roedd profiad plant o garchar yn fwy cadarnhaol nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd y contract ar gyfer y sefydliad yn cael ei ail-dendro adeg ein harolwg a'r her i reolwyr oedd cynnal y llwyddiant hwn drwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd anochel.

Section 3 Diogelwch

Caiff plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, eu dal yn ddiogel.

Dyddiau cynnar yn y ddalfa

Deilliannau disgwyliedig: Mae plant sy'n trosglwyddo i'r ddalfa ac oddi yno yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Ar ôl cyrraedd, mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae eu hanghenion unigol yn cael eu nodi a'u diwallu, ac maent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ar eu noson gyntaf. Mae'r cynefino'n gynhwysfawr.

3.1 Ar gyfartaledd, roedd pump o blant yn cyrraedd y Parc bob mis. Roedd swyddog o'r uned yn cyfarfod y plant yn y dderbynfa ac yn eu cludo'n syth i'r uned. Roedd hyn yn sicrhau nad oeddent yn cael cyswllt â charcharorion sy'n oedolion.

3.2 Cynhaliwyd cyfweliadau diogelwch cychwynnol mewn swyddfa breifat ac roeddent yn canolbwyntio'n briodol ar nodi risgiau posibl i ddiogelwch a lles y plant. Roedd un o'r ddwy nyrs uned yn gweld pawb oedd yn cael eu derbyn. Cynigiwyd pryd poeth i'r plant ar eu noson gyntaf a chynigiwyd cawod i'r rhan fwyaf ohonynt. Roedd y plant oedd yn cyrraedd y tu allan i'r diwrnod craidd yn cael cynnig cawod y bore canlynol.

3.3 Roedd y rhan fwyaf o blant yn cael ffonio adref ar eu noson gyntaf, ond roedd oedi o hyd cyn caniatáu i blant a allai fod â statws cyfyngedig (gweler y Rhestr termau) wneud galwadau. Yn yr achosion hyn, roedd staff yn gwneud galwadau ffôn ar eu rhan.

3.4 Dyrannwyd cell i'r plant yn uniongyrchol ar yr uned gan nad oedd unrhyw unedau cynefino penodol na chelloedd noson gyntaf. Roedd y celloedd yn lân, heb unrhyw graffiti ac yn cynnwys cyfarpar digonol. Rhoddwyd dillad gwely, dillad a phecyn cynefino i'r plant a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y carchar, yn ogystal â phethau ymolchi, llyfr posau a deunyddiau ysgrifennu.

3.5 Cynhaliodd y staff sesiynau arsylwi hanner awr ar les ar bob un sy'n cyrraedd am y tair noson gyntaf ac, yn ein harolwg, dywedodd 90% o'r plant wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf. Roedd yn gadarnhaol bod plant yn cael eu hannog i ddefnyddio eu clychau cell, sy'n cael eu cadw fel arfer ar gyfer argyfyngau, yn ystod eu nosweithiau cyntaf os oedd ganddynt unrhyw bryderon neu gwestiynau neu os oeddent am siarad â staff yr uned.

3.6 Cynhaliwyd rhaglen sefydlu dros dri diwrnod, dan oruchwyliaeth swyddog cynefino penodol a oedd yn gweithio'n agos gyda'r plant i sicrhau eu bod yn deall sut roedd yr uned yn gweithio, er enghraifft, sut i ddefnyddio'r ciosgau electronig i ddewis prydau bwyd, archebu credyd

ffôn neu wneud apwyntiadau. Yn ystod y cyfnod cynefino, bu'r plant hefyd yn cwrdd â swyddogion eu cynllun cymorth yn y ddalfa (CuSP), yn cael apwyntiadau pellach gyda'r nyrsys ac yn gwneud asesiad dysgu a sgiliau.

3.7 Dim ond pan oedd plant eraill mewn addysg yr oedd trefniadau'r carfannau (gweler y Rhestr termau) yn caniatáu amser y tu allan i'r gell i blant mewn cyfnod cynefino. Roedd hyn yn bedair neu bum awr y dydd, a oedd yn fwy nag mewn sefydliadau tebyg. Gallai'r plant ymuno â'r brif drefn ar ôl dau brawf COVID negatif a oedd yn eu galluogi i fynd i gael addysg ac i'r gampfa y diwrnod ar ôl gorffen y cyfnod cynefino.

Diogelu plant

Deilliannau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn hyrwyddo lles plant, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac yn eu hamddiffyn rhag pob math o niwed ac esgeulustod.

3.8 Roedd y diwylliant staff cadarnhaol o ddisgwyliadau uchel o blant, perthnasoedd da iawn a gwaith amlddisgyblaethol effeithiol yn sail i ddiogelu plant. Adeg yr arolygiad, ni ddywedodd unrhyw blant eu bod yn teimlo'n anniogel, naill ai yn yr arolwg nac mewn cyfweliadau preifat gyda'r tîm arolygu.

3.9 Roedd y cyfarfod amlddisgyblaeth bob bore yn fforwm effeithiol i staff rannu gwybodaeth am blant a'u diogelu. Roedd staff yr uned wedi cael hyfforddiant diogelu yn ystod y chwe mis blaenorol ac roedd rheolwyr yn gwirio bob bore bod staff yn gwisgo camerâu fideo ar y corff. Roedd defnyddio'r camerâu hyn yn ystod digwyddiadau yn dod yn fwy rheolaidd ac roedd yn cyfrannu at ddiogelu, yn ogystal â'r bathodynnau enwau yr oedd staff yn eu gwisgo a'r byrddau lluniau staff o amgylch yr uned.

3.10 Roedd y swydd gweithiwr cymdeithasol penodol ar y safle wedi bod yn wag am gyfnod estynedig a oedd wedi lleihau'r cyngor a oedd ar gael i reolwyr a oedd yn gyfrifol am amddiffyn a diogelu plant. Roedd cysylltiadau â phartneriaid diogelu cymunedol wedi cael eu cynnal drwy gydol y pandemig. Roedd rheolwyr unedau yn mynd i gyfarfodydd bwrdd diogelu lleol ac roedd yr awdurdod lleol a'r heddlu fel arfer yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfod chwarterol diogelu'r uned.

3.11 Roedd atgyfeiriadau amddiffyn plant a diogelu yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu cyfeirio'n briodol ar gyfer ymchwiliad allanol. Cafwyd wyth atgyfeiriad yn ystod y chwe mis blaenorol a chadwyd cofnodion da o'u cynnydd. Mewn rhai achosion, bu oedi wrth ddarparu canlyniadau terfynol i'r uned a oedd wedi ymestyn y cyfnod o ansicrwydd i'r plant a'r staff a oedd yn gysylltiedig â'r atgyfeirio.

3.12 Roedd eiriolwyr o Barnardo's ar gael i blant. Roeddent yn helpu plant i fynegi pryderon ac yn darparu ffynhonnell annibynnol arall o gymorth diogelu.

Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

Deilliannau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae plant sydd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad yn cael eu canfod yn gynnar ac yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed ac yn effro iddynt, maent wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn gallu cael gafael ar offer a chefnogaeth briodol.

3.13 Cofnodwyd 17 achos o hunan-niweidio yn ystod y 12 mis blaenorol, ac roedd tua hanner y rhain wedi cynnwys un plentyn. Nid oedd triniaeth ysbyty wedi bod yn ofynnol mewn unrhyw un o'r achosion. Roedd cyfradd yr hunan-niweidio a gofnodwyd yn debyg i'r arolygiad diwethaf ac i sefydliadau troseddwyr ifanc eraill. Roedd 19 o ddogfennau ACCT (asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm rheoli achosion plant mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio) wedi cael eu hagor dros yr un cyfnod, y rhan fwyaf ar ôl cyrraedd pan oedd y llysoedd wedi nodi risgiau neu hebryngwyr. Nid oedd yr un plentyn ar ACCT agored adeg yr arolygiad a dim ond un plentyn yn y carchar oedd erioed wedi bod ar ACCT.

3.14 Fel arfer, roedd plant sy'n wynebu'r risg fwyaf o hunan-niweidio yn cael eu rhoi mewn cell gyda Theledu Cylch Cyfyng fel y gallai staff gynnal archwiliadau lles yn ystod y nos heb darfu arnynt. Fodd bynnag, roedd arsylwadau'n dal i gael eu gwneud ar adegau rhagweladwy a oedd yn creu risg ddiangen. Yn y dogfennau ACCT a adolygwyd gennym, roedd cynlluniau gofal yn rhai amlddisgyblaethol, yn dangos ymdrechion i gadw plant yn rhan o weithgareddau ac addysg a, lle bo'n briodol, yn cynnwys aelodau o'r teulu neu asiantaethau cymunedol, a oedd yn gadarnhaol.

3.15 Roedd staff yr uned yn dangos gwybodaeth dda am y plant yn eu gofal a'u hamgylchiadau ac roedd trefn brysur yn lleihau diflastod a rhwystredigaeth (gweler paragraff 5.1). Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn gweld y nyrs iechyd meddwl pryd bynnag y gallent fod yn arbennig o agored i niwed, er enghraifft ar ôl ymddangosiad yn y llys, apwyntiad meddygol neu ymweliad cyfreithiol.

3.16 Dim ond mewn cyfarfodydd diogelu misol y cyfeiriwyd at hunan-niweidio. Ni chyflwynwyd data defnyddiol na'i ddadansoddi, ac ni chymerwyd camau i leihau hunan-niweidio. I'r gwrthwyneb, trafodwyd achosion unigol yn fanwl mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol dyddiol.

3.17 Ni fu unrhyw farwolaethau neu ddamweiniau fu bron â digwydd wedi'u hachosi gan yr unigolyn ei hun ers yr arolygiad diwethaf.

Argymhelliad

3.18 **Ni ddylid cynnal gwiriadau arsylwadol ar blant ar adegau rhagweladwy.** (Argymhelliad wedi'i ailadrodd, 1.17)

Diogelwch

Deilliannau disgwyliedig: Mae'r plant yn cael eu cadw'n ddiogel drwy roi sylw i faterion corfforol a threfniadol, gan gynnwys deallusrwydd diogelwch effeithiol a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a phlant.

3.19 At ei gilydd, roedd diogelwch corfforol yn gymesur i blant yn y Parc.

3.20 Roedd yr adran ddiogelwch yn llunio asesiad tactegol lleol bob mis, a oedd yn nodi'r prif fygythiadau diogelwch ar gyfer y carchar cyfan. Nodwyd yn briodol mai gwrthdaro a thrais oedd y prif fygythiadau ar yr uned plant, ac roedd yr adran ddiogelwch a staff yr uned yn cydweithio'n dda i fonitro a rheoli hyn.

3.21 Yn ystod y chwe mis blaenorol, derbyniwyd 189 o adroddiadau gwybodaeth am blant, 65% o ostyngiad ers yr arolygiad blaenorol, ac roedd rheolwyr diogelwch yn priodoli hyn i ostyngiad yn y boblogaeth yn yr uned plant. Cafodd adroddiadau gwybodaeth eu prosesu'n brydlon ac nid oedd ôl-groniad.

3.22 Ymatebodd staff yr uned yn gyflym i wybodaeth ac roeddent wedi cwblhau'r holl chwiliadau wedi'u targedu y gofynnwyd amdanynt yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd staff wedi cynnal 32 o chwiliadau a oedd yn seiliedig ar wybodaeth rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, gan adfer naw eitem gan gynnwys ffonau symudol ac arfau byrfyfyr.

Rheoli ymddygiad

Deilliannau disgwyliedig: Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus a llawn cymhelliant lle mae eu hymddygiad da yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg a chyson.

3.23 Gwelsom ymddygiad da gan blant ym mhob lleoliad. Roedd y plant yn cael eu cadw'n brysur gyda threfn ddyddiol lawn a oedd yn lleihau'r tebygolrwydd o ymddygiad gwael oherwydd diflastod. Roedd staff yn modelu safonau ymddygiad uchel ac yn disgwyl, a chefnogi, plant i ymddwyn yn dda. Yn ein harolwg, dywedodd 61% o blant fod staff wedi dweud wrthynt pan oedd eu hymddygiad yn dda a dywedodd 86% eu bod fel arfer, pan oeddent mewn trwbl, wedi esbonio iddynt beth roeddent wedi'i wneud o'i le. Atgyfnerthwyd hyn yn ystod ein cyfweliadau un-i-un gyda phlant.

3.24 Yn ein harolwg, dim ond 47% o blant ddywedodd fod y cynllun cymell yn eu hannog i ymddwyn yn dda a dywedodd 35% eu bod yn meddwl bod y cynllun yn deg. Mewn sgyrsiau gyda phlant unigol, gallent ddisgrifio sut roedd y cynllun yn gweithio a dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg ond roedd rhai o'r farn nad oedd y gwahaniaethau rhwng lefelau'r gyfundrefn yn gymhelliant digonol.

3.25 Roedd y cynllun yn cael ei ddefnyddio'n dda i annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a hamdden a chymysgu gyda'u cyfoedion, ac roedd staff yn herio ymddygiad gwael ar lefel isel yn effeithiol. Gallai'r plant fynd drwy'r lefelau heb oedi gormodol ac, os byddent yn cael eu hisraddio, gallent ddechrau symud i fyny'r lefelau eto. Roedd y targedau a osodwyd i'r plant ymlaen llaw yn glir ac yn gyraeddadwy. Cynhaliwyd adolygiadau bob wythnos gyda rhai adolygiadau canol wythnos ar gyfer plant yr oedd angen mwy o gefnogaeth arnynt i symud ymlaen.

3.26 Roedd defnyddio data i ganfod anghymesuredd yng ngweithrediad y cynllun wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, ond roedd lle o hyd i ymchwilio i achosion canlyniadau gwahaniaethol yn fwy trylwyr.

3.27 Nid oedd unrhyw gynllun gwobrwyo ar hyn o bryd, ond roedd hyn yn cael ei ystyried fel ffordd arall o annog ymddygiad da.

3.28 Ymdriniwyd ag achosion mwy difrifol o dorri'r rheolau drwy'r broses ddyfarnu a oedd wedi cael ei defnyddio 87 gwaith yn ystod y chwe mis blaenorol, fel arfer ar gyfer digwyddiadau'n ymwneud â thrais. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o wrandawiadau dyfarnu gan un o uwch reolwyr yr uned a helpodd i sicrhau cysondeb yn y cosbau a roddwyd. Roedd eiriolwyr Barnardo's yn cael gwybod bellach am blant a oedd yn wynebu gwrandawiad dyfarnu fel y gallent gynnig cefnogaeth. Nodwyd bod hyn yn ddiffyg yn ein harolygiad diwethaf.

Lleihau bwlio a thrais

Deilliannau disgwyliedig: Mae pawb yn teimlo'n ddiogel rhag cael eu bwlio a'u herlid. Mae staff, plant ac ymwelwyr yn gwybod am systemau gweithredol a theg i atal ac ymateb i fwlio.

3.29 Roedd lefelau trais wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf ac roedd 30 o ddigwyddiadau treisgar wedi digwydd rhwng mis Medi 2021 a mis Chwefror 2022. Cafwyd pum anaf yn ystod y cyfnod hwn, ac roedd un o'r rhain wedi golygu bod angen i blentyn fynd i'r ysbyty i gael ei asesu.

3.30 Cyflwynwyd tîm datrys anghydfod ers yr arolygiad diwethaf. Roedd aelodau'r tîm yn swyddogion yn y ddwy uned breswyl a oedd yn rhoi syniad da iddynt o'r rhyngweithio rhwng plant ac unrhyw densiynau sy'n datblygu. Gwnaethpwyd ymdrechion da i ddeall a datrys gwrthdaro rhwng plant yn ystod cyfweliadau ac ymchwiliadau datrys gwrthdaro a hefyd drwy rannu gwybodaeth yn y cyfarfod amlddisgyblaeth boreol ac mewn sesiynau CuSP gyda phlant (gweler paragraff 4.2). Gwnaeth yr arweinwyr ddefnydd da o ddata i'w helpu i ddeall bwlio a thrais.

3.31 Dywedodd y plant fod y staff yn effro i'r tensiynau ar yr unedau preswyl ac yn camu i mewn yn gyflym os bydd trais yn dechrau. Roedd prosesau cyfryngu yn cael eu cynnal wedyn ac fe'i datryswyd ar unwaith er mwyn atal mân ddigwyddiadau rhag gwaethygu.

3.32 Am rai misoedd, roedd gwrthdaro ymysg plant ar y ddwy uned breswyl wedi eu hatal rhag cymysgu fel un grŵp mawr ar gyfer unrhyw weithgareddau. Yn anffodus, roedd hyn yn tanseilio ethos yr uned ac yn atal rheolwyr rhag datblygu'r diwylliant ymhellach. Ni allai'r plant a gafodd eu cyfweld esbonio pam fod problemau rhwng y ddwy uned.

3.33 Dim ond un plentyn yn ein harolwg ddywedodd y byddai'n dweud ei fod yn cael ei fwlio neu ei erlid gan blentyn arall. Roedd hyn yn destun pryder. Roedd data'n dangos bod naw achos o fwlio wedi cael sylw yn ystod y chwe mis diwethaf a bod staff y buom yn siarad â nhw yn ymwybodol o'r posibilrwydd o fwlio ac erledigaeth. Agorwyd cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIPs) ar gyfer plant a oedd yn ddioddefwyr neu'n cyflawni erledigaeth a thrais. Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd 21 o CSIPs wedi cael eu defnyddio ac roedd dau ar agor adeg yr arolygiad. Roedd gan y plant drefn lawn a chynhaliwyd adolygiadau rheolaidd.

Defnyddio grym

Deilliannau disgwyliedig: Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y defnyddir grym ac os caiff ei ddefnyddio, bydd yn cael ei wneud mewn modd cyfreithlon gan staff sydd wedi'u hyfforddi. Mae'r defnydd o rym yn cael ei leihau drwy strategaethau ataliol a dulliau eraill sy'n cael eu monitro drwy drefniadau llywodraethu cadarn.

3.34 Roedd defnyddio grym wedi lleihau ers yr arolygiad diwethaf, gyda 99 o ddigwyddiadau treisgar rhwng mis Medi 2021 a mis Chwefror 2022. Dangosodd cofnodion fod nifer o blant wedi cael eu hatal mewn un digwyddiad ar sawl achlysur: er enghraifft, ym mis Chwefror 2022 roedd 16 o ataliadau wedi cael eu defnyddio yn ystod tri ymosodiad, pob un yn cynnwys hyd at chwech o blant. Roedd llawer o'r grym a ddefnyddiwyd wedi bod yn gymharol isel a chymerwyd gofal i geisio tawelu digwyddiadau fel bod plant yn cerdded yn ôl i'w celloedd yn hytrach na chael eu gorfodi i symud. Nid oedd unrhyw enghreifftiau o ddefnyddio technegau annog poen yn ystod y cyfnod hwn.

3.35 Yn ein harolwg, dywedodd 89% o blant fod ganddynt brofiad o staff yn defnyddio grym, a dywedodd pob un ohonynt fod rhywun wedi siarad â nhw am yr ataliaeth wedyn. Yn ystod ein cyfweliadau, mynegodd y plant farn gymysg ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd y drafodaeth hon ac a oedd digon o ymdrechion wedi'u gwneud i dawelu'r sefyllfa.

3.36 Roedd y broses o oruchwylio'r defnydd o rym yn dda. Cafodd digwyddiadau eu hadolygu'n brydlon gan un o'r cydlynwyr rheoli a lleihau ataliaeth gorfforol (MMPR) gan ddefnyddio teledu cylch cyfyng a lluniau camera ar y corff, a nodwyd pryderon amddiffyn plant a rhoddwyd gwybod amdanynt. Adolygwyd pob achos o rym mewn cyfarfod MMPR wythnosol i ganfod a mynd i'r afael â diffygion. Roedd staff a oedd yn ymwneud â chyfyngiadau wedi cwblhau eu dogfennau'n brydlon ac roedd cydlynwyr MMPR ac uwch reolwr gweithredol yn sicrhau ansawdd.

3.37 Roedd hyfforddiant staff rheolaidd yn cael ei gynnal, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i dawelu'r sefyllfa. Roedd sicrwydd ansawdd a goruchwyliaeth yn cael eu defnyddio'n dda i nodi themâu i'w hymgorffori mewn hyfforddiant ac i nodi aelodau o staff a fyddai'n elwa o gyngor neu arweiniad ychwanegol. Defnyddiwyd sesiynau galw heibio un-i-un ar gyfer y staff hyn ac ar gyfer y rhai a oedd eisiau eglurhad ar dechnegau neu brosesau MMPR.

3.38 Roedd cynlluniau trin MMPR ar waith ar gyfer plant â chyflwr meddygol a fyddai wedi bod mewn perygl wrth i rym gael ei ddefnyddio ac roedd dynodwr ar wahân yn dangos pa gelloedd roedd y plant hyn yn eu defnyddio (gweler paragraff 4.23). Roedd y rhan fwyaf o'r staff y buom yn siarad â hwy yn gwybod ble i ddod o hyd i'r cynlluniau a pha blant oedd ag un.

Argymhelliad

3.39 **Dylai rheolwyr sicrhau bod ôl-drafodaethau yn dilyn ataliaeth yn ddealladwy ac yn ddefnyddiol i blant.**

Gwahanu/tynnu o leoliad arferol

Deilliannau disgwyliedig: Dim ond gyda'r awdurdod priodol y caiff plant eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion, a chaiff hynny ei wneud yn ddiogel, yn unol â'u hanghenion unigol, am resymau priodol ac nid fel cosb.

3.40 Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd pump o blant wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion am resymau trefn neu ddisgyblaeth dda, gyda thri ohonynt wedi aros yn eu cell benodedig tra'r oeddent wedi cael eu gwahanu. Roedd cofnodion yn dangos bod eu trefn yn aros mor debyg â phosib i drefn plant eraill. Adeg yr arolygiad, roedd plentyn a oedd wedi'i wahanu yn cael addysg yn y bore a'r prynhawn gyda chyfoedion ac yn cael gweithgareddau gyda'r nos ac ar benwythnosau gyda staff a oedd yn adlewyrchu ei gyfoedion. Ystyriwyd ail-integreiddio cyn gynted ag y dechreuwyd gwahanu.

3.41 Roedd yr uned cymorth dwys, a oedd â dwy gell, yn cael ei defnyddio weithiau i wahanu plant. Roedd yn gorfforol ar wahân i weddill yr uned ac roedd gan y plant a oedd yn cael eu gwahanu yno drefn llawer mwy cyfyngedig. Nid oedd yr Uned Cymorth Dwys yn cael ei defnyddio'n aml, ond roedd dau garcharor newydd wedi cael eu gwahanu yno yn ystod y chwe mis blaenorol, y tro cyntaf i'r uned gael ei defnyddio ers mis Medi 2020. Roedd modd cyfiawnhau defnyddio'r Uned Cymorth Dwys yn y ddau achos. Treuliodd un plentyn bedwar diwrnod yno cyn ymuno â'i gyfoedion a threuliodd y llall 14 diwrnod yno tra'r oedd trefniadau i'w symud i'r ysbyty yn cael eu gwneud. Dyma'r cyfnod hiraf o wahanu yn y Parc dros y chwe mis diwethaf ac roedd yn destun pryder bod y plentyn wedi cael ei leoli yn y Parc er bod ei anghenion meddygol yn hysbys cyn iddo gael ei gadw dan glo.

3.42 Roedd mwy o ddefnydd wedi'i wneud o wahanu nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill tra'r oedd plentyn yn aros am ddyfarniad.

Digwyddodd hyn pan oedd pryderon am risgiau i'r plentyn neu gan y plentyn yn dilyn y digwyddiad y bu'n ymwneud ag ef. Defnyddiwyd y gwahanu am yr amser lleiaf posib, fel arfer un diwrnod, tra'r oedd y materion yn cael eu datrys.

3.43 Roedd y cofnodion gwahanu'n briodol ac yn dangos bod cyfiawnhad dros wahanu ac roedd adolygiadau'n cael eu cynnal. Cofnodwyd ymweliadau statudol dyddiol gan gaplaniaid, staff gofal iechyd a rheolwyr unedau ac roedd rhai cofnodion yn disgrifio'r rhyngweithio a fu gyda'r plentyn.

Section 4 Gofal

Mae'r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas.

Y berthynas rhwng y staff a'r plant

Deilliannau disgwyliedig: Caiff y plant eu trin yn ofalus gan yr holl staff, a disgwylir iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain, a chânt eu hannog a'u galluogi i wneud hynny. Mae staff yn gosod ffiniau clir a theg. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac maent yn eu helpu i gyflawni eu potensial.

4.1 Roedd y berthynas rhwng y staff a'r plant yn dda. Roedd y plant y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol am eu perthynas â'r staff ac yn ymateb yn dda i ethos meithringar a gofalgar yr uned. Yn ein harolwg, dywedodd 82% o blant fod aelod o staff y gallent droi ato pe bai angen help arnynt. Roedd ffotograffau o'r staff a'u rolau wedi'u harddangos yn glir ar yr unedau er mwyn ei gwneud yn haws i'r plant eu hadnabod. Roedd y plant yn gadarnhaol am y gefnogaeth a gawsant gan eiriolwyr Barnardo's a'r tîm anghenion, ymgysylltu a lles (NEWT).

4.2 Bu buddsoddiad sylweddol yn y cynllun cymorth i ddefnyddio'r ddalfa (CuSP) a oedd wedi bod ar waith ers pum mis ac roedd y swyddogion a'r plant yn teimlo bod y CuSP yn fuddiol. Roedd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ac roedd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd wythnosol rhwng swyddogion CuSP a'r plant yn cael eu cynnal. Roedd ymarfer mapio wedi penderfynu dyrannu staff i blant ar sail diddordebau tebyg, a oedd yn dda. Cynhaliodd y tîm seicoleg ar y safle gyfarfodydd sicrhau ansawdd a chyfarfodydd tîm rheoli lleol misol i adolygu'r gwaith ac i gynnig cefnogaeth ac arweiniad i staff.

4.3 Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant wedi'u dynodi'n gynrychiolwyr ar yr unedau. Roedd cynlluniau ar y gweill i benodi plentyn yn gynrychiolydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y dyfodol agos. Ymwelodd dau garcharor o'r ystâd oedolion, a oedd wedi bod yn yr uned i blant cyn hynny, â'r plant i siarad am eu profiadau o drawsnewid ac i gynnig cyngor. Nid oedd eu hymweliadau wedi'u cynnal yn aml yn ystod cyfyngiadau COVID ac roedd mwy o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer hyn.

Bywyd bob dydd

Deilliannau disgwyliedig: Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac maent yn ymwybodol o reolau ac arferion y sefydliad. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallent wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

Amodau byw

4.4 Roedd yr ardaloedd cymunedol yn lân ac roedd yr offer mewn cyflwr da ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd hysbysfyrddau'n cael eu diweddaru gyda gwybodaeth berthnasol am asiantaethau cymorth a chalendrau digwyddiadau, a oedd yn gadarnhaol.

Uned G1

4.5 Roedd yr iardiau ymarfer yn fach ond roeddent yn cael eu cadw'n daclus. Gwelsom blant yn defnyddio'r mannau awyr agored yn ystod egwyliau o addysg.

Ardal ymarfer E1

Ardal ymarfer G1

4.6 Roedd gan y celloedd offer da ac roedd y plant yn gyfrifol am eu cadw'n lân ac yn daclus, gydag anogaeth gan y staff. Cynhaliwyd cystadlaethau celloedd bob wythnos gyda gwobrau'n cael eu dyfarnu i'r enillydd, a oedd yn cynnwys byrbrydau ychwanegol yn aml. Fodd bynnag, roedd y ffenestri mewn cyflwr gwael gyda graffiti a baw yn y

graen. Mewn rhai celloedd, roedd fentiau aer wedi torri yn effeithio ar yr awyru ac, yn ein harolwg, dim ond 44% o blant ddywedodd fod tymheredd eu cell yn iawn. Nid oedd plant wedi bod yn rhannu celloedd ers dechrau'r pandemig, a oedd yn gadarnhaol.



Cell yn cael ei defnyddio ar uned G1

4.7 Roedd mynediad at gawodydd yn dda a dywedodd 95% o'r plant yn ein harolwg y gallent gael cawod bob dydd. Roedd y cawodydd yn lân ond roedd angen eu hailwampio. Roedd cyfleusterau cawod yn y celloedd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Roedd y cyfleusterau golchi dillad yn dal yn dda ac roedd modd cael gafael arnynt yn y ddwy uned. Roedd eiddo'r plant yn cael ei gadw yn y carchar i oedolion ac roedd y staff wedi casglu eiddo ar gyfer y plant yn ystod cyfyngiadau COVID. Roedd plant yn cael derbyn parseli gan deulu a ffrindiau bob mis.

Argymhelliad

4.8 **Dylai ffenestri fod yn rhydd o raffiti a baw, a dylid gwneud gwaith cynnal a chadw ar fentiau aer sydd wedi torri.**

Gwasanaethau preswyl

4.9 Roedd y bwyd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Yn ein harolwg, dywedodd 50% o blant fod y bwyd yn dda iawn neu'n eithaf da. Roedd bwyd bellach yn cael ei baratoi yn ffreutur y staff yn ystod yr wythnos ac, o ganlyniad, roedd yr ansawdd wedi gwella. Roedd faint o fwyd oedd yn cael ei gynnig yn weddol dda ac roedd dewis poeth ar gael yn ystod amser cinio ac ar gyfer y pryd nos.

4.10 Roedd y plant yn cael byrbrydau ychwanegol drwy gydol y dydd, gan gynnwys nwdls a grawnfwyd yr oeddent yn hapus gyda nhw. Roedd cyfleoedd rheolaidd i blant goginio iddynt eu hunain fin nos ac ar benwythnosau.

4.11 Roedd y plant yn cael bwyta bob pryd bwyd yn y mannau cymunedol. Gwelsom ryngweithio da ymysg plant a staff adeg prydau bwyd. Roedd uwch reolwyr yn gweini cinio a phrydau gyda'r nos, gan roi amser iddynt ymgysylltu'n effeithiol â'r plant. Gwelsom staff yn paratoi prydau bwyd gyda'r nos ac yn gynnar yn y bore ar gyfer plant ar Ramadan, a oedd yn dda.

4.12 Roedd y plant y buom ni'n siarad â nhw yn hapus gyda'r gwasanaeth ffreutur ond byddent wedi hoffi gweld amrywiaeth ehangach o gynnyrch ar gael. Codwyd hyn mewn cyfarfodydd ymgynghori ac roedd staff yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy brynu nwyddau ychwanegol i'r plant eu prynu.

Ymgynghori, ceisiadau ac unioni

4.13 Yn ystod y chwe mis blaenorol, cafwyd 12 cwyn yr ymchwiliwyd iddynt yn dda gan gyfathrebu â phlant drwy gydol y cyfnod. Roedd yr ymatebion yn amserol ac yn barchus a pharhaodd y broses sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr bod y prosesau'n effeithiol. Yn ein harolwg, dywedodd 88% o blant eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn a dywedodd un plentyn nad oedd yn teimlo'n rhy ofnus i wneud hynny. Roedd digon o ffurflenni cwyno yn yr unedau ac roedd tystiolaeth o eiriolwyr Barnardo's yn helpu plant i lenwi'r ffurflenni.

4.14 Nid oedd staff a phlant bob amser yn bresennol yn y fforwm pobl ifanc misol. Roedd y trafodaethau'n ailadroddus ac ni roddwyd sylw bob amser i'r camau gweithredu ond cawsant eu trosglwyddo i'r mis canlynol. Dywedwyd wrthym fod y fforymau'n agored i bob plentyn fynd iddynt, ond nid oedd hyn yn bosibl tra nad oedd plant o'r ddwy uned yn gallu cymysgu. Roedd angen i reolwyr feddwl am syniadau newydd i adfywio'r broses ymgynghori gyda llai o blant yn yr unedau.

4.15 Parhaodd y tîm anghenion, ymgysylltu a lles i roi cefnogaeth dda i blant a'u teuluoedd gyda hawliau cyfreithiol. Roedd gan y tîm berthynas waith dda gyda'r Howard League for Penal Reform a Barnardo's, a oedd yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i'r plant os oedd angen.

Argymhelliad

4.16 **Dylai'r ymgynghoriad gynnwys barn pob plentyn a dylid mynd i'r afael â chamau gweithredu mewn modd amserol.**

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Deilliannau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn dangos dull clir a chydlynol o ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo canlyniadau teg a meithrin cysylltiadau da, ac mae'n sicrhau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais annheg. Mae hyn yn seiliedig ar brosesau effeithiol i ganfod a datrys unrhyw anghydraddoldeb. Mae anghenion amrywiol pob plentyn yn cael eu cydnabod a'u diwallu.

Rheolaeth strategol

4.17 Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw arweinydd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd rhywfaint o waith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi parhau ac roedd cynllun gweithredu, er nad oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am hyn ac ni thrafodwyd hyn mewn cyfarfodydd rheoli.

4.18 Roedd syniadau diddorol a datblygedig i lenwi'r bwlch hwn. Roedd Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), gwasanaeth cymunedol gwirfoddol, wedi cael ei gomisiynu i gyflawni gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y dyfodol agos. Roeddent eisoes wedi cwblhau hyfforddiant gyda bron pob aelod o staff yn yr uned plant, a oedd yn gadarnhaol.

4.19 Roedd data defnyddiol ar nodweddion gwarchodedig (gweler y Rhestr termau) y plant yn cael eu casglu ar gronfa ddata 'cryfderau a diwylliant'. Roedd yn amlwg bod staff yn adnabod y plant yn eu gofal, ond nid oedd yn glir a oedd gwybodaeth ar y gronfa ddata yn cael ei hystyried. Roedd y grŵp monitro ac adolygu misol yn adolygu data ethnigrwydd o feysydd fel trais a rheoli ymddygiad, ond roedd y dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn dal yn gyfyngedig.

4.20 Roedd fforymau ymgynghori wedi parhau drwy gydol y pandemig ac wedi cael eu cefnogi'n fwy diweddar gan aelodau eraill o staff yn absenoldeb arweinydd pwrpasol. Fodd bynnag, nid oedd staff na phlant bob amser yn bresennol yn y fforymau ac nid oeddent yn canolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant.

4.21 Cafwyd dwy gŵyn am gamwahaniaethu yn ystod y chwe mis diwethaf, y deliwyd yn dda â'r ddwy ohonynt, gan gynnwys cynnal cyfweliadau gyda phlant yn brydlon ac yn deg. Roedd cynlluniau ar waith o dan y contract newydd ar gyfer EYST i graffu ar y broses hon a'i chefnogi.

Nodweddion Gwarchodedig

4.22 Adeg ein harolygiad, roedd 58% o'r plant o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd y plant hyn eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan staff a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

4.23 Yn ein harolwg, dywedodd 16% o blant fod ganddynt anabledd, a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Nid oedd yr un plentyn ar gynllun byw â chymorth, a oedd yn briodol. Defnyddiwyd sticeri lliw y tu allan i ddrysau'r celloedd er mwyn i'r staff nodi'r plant yr oedd angen addasiadau arnynt i leihau a

rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR), a oedd yn dda (gweler paragraff 3.38).

4.24 Adeg yr arolygiad, roedd un plentyn cenedlaethol o dramor wedi cael ei nodi. Roedd cefnogaeth yn cael ei threfnu ar ei gyfer.

4.25 Roedd digwyddiadau arbennig wedi parhau i gael eu cynnal ar yr unedau ac roeddent yn cael eu hysbysebu'n dda i'r plant. Fe welsom enghreifftiau o blant yn cymryd rhan ym mis ymwybyddiaeth LGBTQ+ a dosbarthiadau coginio diwylliannol ac roedd yr adborth gan blant yn dda.

4.26 Roedd cymorth gan y gaplaniaeth wedi cael ei gynnal drwy gydol y pandemig ac roedden nhw'n ymweld â'r plant bob dydd. Yn ein harolwg, dywedodd 50% o'r plant fod ganddynt grefydd, a dywedodd pob un ohonynt fod eu credoau crefyddol yn cael eu parchu. Roedd tri phlentyn yn cymryd rhan yn Ramadan adeg ein harolygiad ac roedd y caplan Mwslimaidd a'r staff ar yr uned yn cynnig cefnogaeth iddynt.

4.27 Nid oedd plant wedi cael mynediad at addoli corfforaethol yn ystod y pandemig ac roedd hyn i fod i ailddechrau cyn bo hir. Roedd The Message Trust, elusen Gristnogol, yn ymweld â'r uned unwaith yr wythnos i gynnig cefnogaeth, gan gynnwys grwpiau astudio'r Beibl, ac i gynnwys y plant mewn dosbarthiadau cerddoriaeth, a oedd yn gadarnhaol.

Gwasanaethau iechyd

Deilliannau disgwyliedig: Mae plant yn cael gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion o ran iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau ac sy'n hyrwyddo parhad iechyd a gofal cymdeithasol pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y gwasanaeth iechyd yr un fath â'r hyn y gallai plant ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

4.28 Roedd G4S Healthcare yn darparu gofal sylfaenol gan gynnwys iechyd meddwl. Darparwyd gwasanaethau deintyddol gan Time for Teeth. Comisiynwyd gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed drwy Wasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FATS) ym Mwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf. Roedd asesiad o anghenion iechyd addas wedi cael ei gyhoeddi yn 2021 ac roedd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd.

4.29 Roedd byrddau partneriaeth a chyfarfodydd llywodraethu lleol wedi parhau drwy gydol y pandemig, ond nid oedd yr agenda'n cynnwys llywodraethu'r gwasanaeth plant ac nid oedd unrhyw drosolwg na chraffu ar y gofal a ddarparwyd. Roedd archwiliadau mewnol ac adroddiadau digwyddiadau wedi cael eu cynnal a'u cyflwyno i reolwyr i'w hadolygu'n lleol. Nid oedd rheolwyr gofal iechyd wedi ymweld â'r uned plant ers dechrau'r pandemig ac roedd diffyg goruchwyliaeth gan

reolwyr. Codwyd hyn gyda'r uwch reolwr gofal iechyd a luniodd restr o ymweliadau wedi'u cynllunio â'r uned plant.

4.30 Roedd staff carchardai a gofal iechyd wedi cydweithio'n dda i reoli effaith y pandemig a darparu rhaglen frechu COVID-19. Cafodd y plant brawf PCR ar ddiwrnod un a diwrnod pump ac, os oedd y ddau brawf yn negatif, roeddent yn cael cyfle i gymysgu gyda phlant eraill.

4.31 Darparwyd gofal sylfaenol gan ddwy nyrs ymroddedig iawn a oedd yn darparu gwasanaeth caredig a gofalgar ac a oedd yn wybodus iawn am y plant. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn adnabod y nyrsys ac y gallent siarad â hwy.

4.32 Roedd cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddiweddaru gyda hyfforddiant priodol a goruchwyliaeth glinigol wedi'u cofnodi.

4.33 Roedd yr ystafell driniaeth mewn cyflwr da ac roedd hefyd yn cael ei defnyddio fel yr ystafell gweinyddu meddyginiaeth. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n gywir ac roedd lefelau'r stoc yn cael eu monitro.

4.34 Roedd safon y cofnodion ar SystmOne, cofnodion clinigol electronig, yn rhesymol. Roedd y cynlluniau gofal yn dda ond nid oedd digon o dystiolaeth bod y plant wedi cymryd rhan. Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd wedi'i leoli'n strategol ac yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nid oedd ambiwlansys wedi cael eu galw mewn argyfwng fel mater o drefn, gyda'r posibilrwydd o oedi cyn cael triniaeth. Galwyd ambiwlans yn awtomatig yn awr mewn argyfwng, ac roedd hynny'n beth da.

4.35 Roedd y poster a oedd yn hysbysebu'r broses gwyno yn cael ei adolygu adeg yr arolygiad er mwyn ei gwneud yn haws i blant ei ddeall. Cafwyd un gŵyn ysgrifenedig yn ystod y flwyddyn flaenorol yr ymatebwyd iddi'n brydlon ond nad oedd wedi'i hysgrifennu mewn iaith a oedd yn briodol i oedran.

4.36 Roedd staff yn hyderus i wneud atgyfeiriadau diogelu ac roedd gofal iechyd yn cael ei gynrychioli mewn cyfarfodydd diogelu.

Hybu iechyd a lles

4.37 Nid oedd strategaeth hybu iechyd leol ond roedd y ddwy nyrs wedi cymryd camau i hybu iechyd. Roedd amrywiaeth eang o ddeunydd hybu iechyd ar gael ar draws yr uned.

4.38 Cafodd y plant eu sgrinio'n brydlon am hepatitis B a haint a drosglwyddir yn rhywiol. Cafodd plant a oedd yn ysmygu eu hasesu ar ôl cyrraedd a chawsant losin disodli nicotin yn y dderbynfa, a oedd yn dda.

4.39 Roedd plant yn cael cynnig amrywiaeth o frechiadau plentyndod, gan gynnwys MMR, ac roedd yr holl blant a oedd wedi cael y brechiadau hynny wedi cael y rhai diweddaraf.

4.40 Dywedwyd wrthym fod y canllawiau cyhoeddus newydd ar imiwneiddio plant rhag COVID-19 wedi bod yn un o'r rhesymau a nodwyd gan y rheini a wrthododd yr imiwneiddio. Cafodd y plant a wrthododd y brechiad wybod bod y gwahoddiad i gael eu himiwneiddio yn aros ar agor a bod staff gofal iechyd yn ei godi ar bob cyswllt.

4.41 Cynigiwyd archwiliad iechyd blynyddol 'dyn iach' i bob plentyn a oedd yn bwrw dedfryd hir.

4.42 Roedd staff gofal iechyd a champfeydd wedi gweithio gyda chwmni hyfforddi lleol i ddarparu cwrs cymorth cyntaf ar ôl i'r addysg ddod i ben. Roedd y plant wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn.

Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol

4.43 Cafodd sgrinio iechyd ei gynnal gan nyrs yn defnyddio'r adnodd asesu iechyd cynhwysfawr cenedlaethol (CHAT). Roedd nyrs yn gweld yr holl blant newydd a oedd yn cyrraedd a oedd yn cymryd eu tymheredd cyn cynnal y sgrinio. Cafodd asesiadau CHAT dilynol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, niwroamrywiaeth, iechyd meddwl a lles, eu cynnal yn ystod yr wythnos gyntaf yn y ddalfa a'u cwblhau i safon uchel.

4.44 Roedd y gwasanaeth gofal sylfaenol dan arweiniad nyrsys yn cynnig ystod dda o wasanaethau, gan gynnwys cyflyrau hirdymor. Roedd y tîm gofal iechyd o'r carchar oedolion yn darparu gwasanaeth nyrsio y tu allan i oriau. Yn ystod y pandemig, roedd y meddyg teulu wedi dechrau ymweld â'r uned unwaith yr wythnos i weld cleifion, a oedd yn cael ei werthfawrogi gan y plant. Roedd hyn wedi gwella effeithlonrwydd, gan leihau'r angen i drosglwyddo plentyn i'r brif uned gofal iechyd a lleihau'r effaith ar brif drefn y carchar. Roedd y gwasanaeth Meddygon Teulu yn cael ei ddarparu chwe diwrnod yr wythnos ac roedd yn cynnwys darpariaeth y tu allan i oriau. Roedd apwyntiadau brys gyda Meddyg Teulu ar gael ar y diwrnod ac roedd apwyntiadau arferol yn cael eu cynnal yn yr uned.

4.45 Cyfeiriwyd pob plentyn at y gwasanaeth optometreg unwaith y mis. Roedd uchafswm aros o bedair wythnos. Roedd gan y ffisiotherapydd un plentyn ar y baich achosion adeg ein harolwg a chynigiwyd apwyntiadau arferol yn brydlon.

4.46 Cyfrannodd y nyrsys at gynlluniau MMPR gwell i sicrhau bod risgiau iechyd ychwanegol yn cael eu rhannu'n briodol (gweler paragraff 4.23). Roedd hyn yn arfer da.

4.47 Nid oedd llawer o apwyntiadau gofal eilaidd ac roedd y rhain yn cael eu rheoli'n dda.

4.48 Adeg yr arolygiad, nid oedd dim un plentyn yn cael gofal cymdeithasol. Ni allai'r staff gofio'r tro diwethaf y bu angen gwasanaethau o'r fath, ond roeddent yn deall sut i gyfeirio achos petai angen gwneud hynny.

Iechyd Meddwl

4.49 Cafodd pob plentyn ei asesu ar ôl cyrraedd gan nyrs iechyd meddwl gofal sylfaenol a oedd yn gwneud atgyfeiriadau prydlon i FATS neu'r meddyg teulu. Cynigiwyd cefnogaeth gydag arferion hylendid, cwsg, ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar, a oedd yn dda.

4.50 Gallai staff gofal iechyd a charchardai gyfeirio at y tîm FACTS. Adolygwyd pob atgyfeiriad mewn cyfarfod wythnosol, ond gwelwyd unrhyw blentyn yr oedd angen ei gyfeirio ar frys o fewn wythnos. Roedd FACTS yn y carchar unwaith neu ddwy yr wythnos ond nid oedd ganddynt ganolfan sefydledig yno. Felly, roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy e-bost nad oedd yn addas ar gyfer adeiladu tîm na chyfathrebu effeithlon.

4.51 Nid oedd rhestr aros ac roedd y plant yn cael eu gweld a'u hasesu'n brydlon. Roedd plant wedi cael eu gweld ar alwadau fideo yn ystod y pandemig ac roedd y tîm wedi dychwelyd i apwyntiadau wyneb yn wyneb ym mis Chwefror 2022.

4.52 Roedd gan blant ar lwyth achosion FACTS fynediad at ymyriadau strwythuredig a oedd yn cynnwys datblygu sgiliau ymdopi a rheoli emosiynau. Roedd diffyg mynediad o hyd at therapyddion a oedd fel arfer yn gysylltiedig â gwasanaethau iechyd meddwl plant, fel celf, drama, cerddoriaeth a lleferydd ac iaith. Roedd yr asesiad o anghenion iechyd wedi nodi bylchau mewn ymyriadau a rhaglenni seicolegol ar gyfer plant a oedd yn dal heb eu cwblhau.

4.53 Roedd FACTS wedi cael trafferth cael mynediad at gofnod clinigol y carchar ac roedd hyn yn y broses o gael ei gywiro. Nid oedd ymarferwyr FACTS yn gwneud cofnodion llawn ar SystmOne a dywedodd eu crynodebau bod cyfrif llawnach yn cael ei gadw ar system cofnodion clinigol Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf. Roedd cadw cofnodion deuol yn cyflwyno risgiau cynhenid, gan gynnwys y methiant posibl i roi gwybodaeth hanfodol.

4.54 Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, roedd dau blentyn wedi gorfod cael eu hasesu neu eu trosglwyddo dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a oedd wedi digwydd yn brydlon.

4.55 Cafodd y gwaith o baratoi ar gyfer rhyddhau neu gynllunio ar gyfer trosglwyddo ei wneud gan y gwasanaeth gofal sylfaenol neu FACTS os oedd y plentyn ar ei lwyth achosion, a oedd yn briodol.

Argymhellion

4.56 **Dylai plant gael mynediad at ystod ehangach o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd.**

4.57 **Dylai FACTS gyfrannu at y system cofnodion clinigol yn y carchar i sicrhau bod un cofnod cynhwysfawr o asesiadau, gofal a thriniaeth ar gyfer plant yn eu gofal.**

Triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau

Deilliannau disgwyliedig: Mae plant sydd â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol yn cael eu hadnabod yn y dderbynfa ac yn cael triniaeth a chefnogaeth effeithiol drwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa.

4.58 Nid oedd strategaeth cyffuriau ac alcohol gyfredol i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Roedd y tîm gofal sylfaenol a'r tîm camddefnyddio sylweddau yn diwallu anghenion y plant. Cafodd gweithiwr seicogymdeithasol penodol a oedd yn seiliedig yn yr uned plant hyfforddiant a goruchwyliaeth reolaidd.

4.59 Aseswyd y plant gan ddefnyddio adnodd asesu camddefnyddio sylweddau CHAT 3. Gwelodd y meddyg teulu blant a oedd angen asesiad clinigol a thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Roedd hyn wedi digwydd unwaith yn y flwyddyn flaenorol.

4.60 Roedd y tîm gofal sylfaenol yn asesu'r plant wrth iddynt gyrraedd. Roeddent yn cyfeirio plant at y gweithiwr seicogymdeithasol a fyddai'n eu gweld o fewn 24 i 48 awr iddynt gael eu derbyn. Cafodd pob plentyn ymyriad ar sylweddau anghyfreithlon i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau.

4.61 Roedd y plant yn cael cymorth priodol i'w hoedran ac roedd 11 o blant yn gwneud ymyriadau wedi'u teilwra ar adeg yr arolygiad. Roedd gan bob plentyn hanes a chynllun gofal manwl gyda nodau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, a oedd yn dda.

4.62 Cyfeiriwyd unrhyw blentyn gyda chyflwr iechyd meddwl a hanes o gamddefnyddio sylweddau at FACTS. Nid oedd hyn yn digwydd yn aml ac roedd unrhyw atgyfeiriad yn cael ei weld yn brydlon.

4.63 Rhoddwyd cyngor ar leihau niwed i bob plentyn a chasglwyd adborth ar ddiwedd y driniaeth fel sail ar gyfer darparu'r gwasanaeth.

Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol

4.64 Darparwyd gwasanaethau fferyllol gan fferyllfa yn y carchar i oedolion. Roedd y gwasanaeth i blant yn cael ei reoli'n lleol gan dechnegydd llawn amser, dan oruchwyliaeth fferyllydd llawn amser.

4.65 Cafodd y meddyginiaethau a oedd yn cyrraedd gyda phlant eu trosglwyddo i'r tîm fferyllfa i gysoni a gofyn am wybodaeth ychwanegol gan feddyg teulu'r plentyn os oedd angen. Yna, roedd y rhain yn cael eu rhagnodi a'u hailgyhoeddi.

4.66 Adeg yr arolygiad, roedd dau blentyn yn cael meddyginiaeth. Roedd y plant yn cael eu datgloi mewn pryd i gael meddyginiaeth gan y nyrs cyn mynd i gael addysg ac roedd y dosau dilynol yn cael eu danfon am 11.45am a 5pm. Roedd y broses o roi meddyginiaeth yn dda.

4.67 Roedd asesiadau risg mewn meddiant yn cael eu cynnal ar sail anghenion ac yn cael eu diweddaru neu eu hadolygu gyda phob

presgripsiwn. Roedd gan un plentyn feddyginiaeth mewn meddiant adeg yr arolygiad. Roedd y nyrs yn mynd i'w weld bob dydd i atgyfnerthu'r ymlyniad at y presgripsiwn, a oedd yn dda.

4.68 Roedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n rheolaidd o'r ystafell driniaeth gyda goruchwyliaeth gymwys gan swyddogion.

4.69 Roedd y gwaith o storio meddyginiaethau'n cael ei reoli'n dda a rhoddwyd meddyginiaeth ar bresgripsiwn o flychau penodol.

4.70 Gellid cael meddyginiaethau ar bresgripsiwn y tu allan i oriau drwy'r fferyllfa ar y safle, ond nid oedd hyn wedi bod yn angenrheidiol yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd cyflenwad o feddyginiaethau dros y cownter yn y cabinet meddyginiaeth yn yr uned a gellid eu rhoi dan bolisi cyfarwyddeb y grŵp cleifion. Roedd mynediad at wasanaethau lleddfu poen ar benwythnosau a dros nos weithiau'n destun oedi: adolygwyd yr oedi drwy roi gwybod am ddigwyddiadau a rhoi sylw i unrhyw bryderon.

4.71 Roedd y trafodaethau mewn cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau misol yn cynnwys fformiwlari a rhagnodi, tueddiadau o ran adrodd am ddigwyddiadau a chanlyniad archwiliadau.

Argymhelliad

4.72 **Dylai plant gael mynediad at driniaethau lleddfu poen yn brydlon dros y penwythnos a thros nos.**

Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

4.73 Cafodd pob plentyn ei gyfeirio at y deintydd ar ôl cyrraedd, ac roedd hyn yn arfer da. Roedd y gwasanaeth deintyddol wedi'i leoli yn y carchar i oedolion ac roedd yn darparu gwasanaeth bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd slotiau wedi'u neilltuo ar gyfer y plant a dim rhestr aros ar gyfer apwyntiadau arferol.

4.74 Roedd gan y plant yr oedd angen triniaeth arnynt apwyntiadau wedi'u trefnu ac roedd y feddygfa wedi gallu cynnal triniaethau a oedd yn cynhyrchu aerosolau a oedd yn sicrhau bod yr amseroedd aros yn fyr.

4.75 Cynigiwyd cyngor ar hylendid deintyddol a hybu iechyd y geg ym mhob cyswllt.

4.76 Roedd plant a oedd yn dioddef poen deintyddol yn cael analgesia dros y cownter ac roeddent yn cael eu gweld o fewn 48 awr yn ystod yr wythnos.

4.77 Dilynwyd mesurau atal a rheoli heintiau a chynhaliwyd archwiliadau rheolaidd i fonitro safonau. Roedd gan y feddygfa ystafell ddihalogi ar wahân gyda mannau glân a budr wedi'u labelu'n glir.

Section 5 Gweithgarwch pwrpasol

Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

Amser allan o'r gell

Deilliannau disgwyliedig: Mae plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser allan o'u cell, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol, saith niwrnod yr wythnos.

5.1 Roedd amser allan o'r gell yn dal yn dda iawn, ac yn llawer gwell nag mewn sefydliadau troseddwyr ifanc eraill. Roedd y rhan fwyaf o blant y tu allan i'w celloedd am rhwng wyth ac 11 awr y dydd yn ystod yr wythnos a rhwng pedair a chwe awr y dydd ar benwythnosau. Yn ein harolwg, dywedodd 95% o blant eu bod yn treulio mwy na dwy awr y tu allan i'w cell yn ystod yr wythnos a 90% ar benwythnosau o'i gymharu â 42% mewn sefydliadau troseddwyr ifanc eraill. Trefnwyd bod plant yn cael o leiaf bedair awr y tu allan i'r gell yn ystod y cyfnod cynefino a'r rhai o dan amodau cohort dros dro (gweler y Rhestr termau).

5.2 Er bod nifer o blant a oedd mewn gwrthdaro yn methu ymwneud â'i gilydd, roedd staff yn dal yn ymroddedig i gyflwyno trefn lawn a rhoi mynediad i blant at amrywiaeth o weithgareddau a dosbarthiadau. Gwelsom blentyn oedd wedi'i wahanu yn cymryd rhan mewn addysg, gwaith coed ac ymarfer corff yn yr awyr agored. Roedd y plant yn cael addysg gyda'i gilydd ar foreau a phrynhawniau yn ystod yr wythnos, gan fwyta gyda'i gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi fel gwyddbwyll, pŵl a thwrnameintiau pêl-droed.

5.3 Roedd y plant yn gallu mynd i gampfa dda a chae bach pob tywydd. Roedd y rhan fwyaf o blant yn ymweld â'r gampfa bob dydd, ac roedd pedwar swyddog Addysg Gorfforol yn darparu ystod eang o gymwysterau a gweithgareddau.

Campfa’r uned i blant

Ardal pob tywydd

5.4 Roedd gan yr uned i blant lyfrgell wedi'i stocio'n dda, a oedd yn cynnwys llyfrau priodol i oedran, deunyddiau Cymraeg, llyfrau hawdd eu darllen a llyfrau i’w darllen yn gyflym, ac amrywiaeth o nofelau graffig. Roedd y llyfrgellydd yn bresennol unwaith yr wythnos i siarad gyda phob plentyn a gallai’r plant fenthyg llyfrau ar unrhyw adeg, gyda chymorth swyddog neu athro.

Llyfrgell yr uned i blant

Addysg, sgiliau a gweithgareddau gwaith

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Estyn, sef swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n ymgymryd â'r gwaith o arolygu'r ddarpariaeth addysg a safonau addysgol, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer pobl ifanc, gan weithio dan gyfarwyddyd cyffredinol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddo. Pwrpas Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Deilliannau disgwyliedig: Disgwylir i bob plentyn gymryd rhan mewn addysg, sgiliau neu weithgareddau gwaith sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chyflogadwyedd, a dylid eu galluogi i wneud hynny. Mae digon o addysg, sgiliau a mannau gwaith addas ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mae'r ddarpariaeth o safon dda.

5.5 Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol am y dulliau dysgu a'r sgiliau a'r ddarpariaeth o ran gwaith:

- Safonau: Rhagorol
- Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol
- Profiadau dysgu ac addysgu: Rhagorol
- Gofal, cefnogaeth ac arweiniad: Rhagorol
- Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

5.6 Mae'r safonau uchel y mae plant wedi'u cyrraedd wedi cael eu cynnal ers yr arolygiad blaenorol, er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgil y pandemig diweddar.

5.7 Gwnaeth bron pob dysgwr gynnydd da o ran gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn aml o ddechrau isel iawn. Roedd llawer wedi gwella'r sgiliau hyn ddwy lefel ac roedd bron pob un wedi gwella un. Roedd y dysgwyr wedi defnyddio llythrennedd a rhifedd mewn sesiynau dosbarth. Mewn cerddoriaeth, datblygodd ychydig o blant eu geirfa wrth ysgrifennu caneuon. Yn Saesneg, roedd dysgwyr yn archwilio ystyr ymadroddion nad oeddent wedi dod ar eu traws o'r blaen. Mewn sawl dosbarth, mae plant yn darllen gwaith yn uchel o flaen eu cyfoedion.

5.8 Roedd gan y plant fynediad da at TG mewn dosbarthiadau a oedd yn eu helpu i feithrin sgiliau i wella eu rhagolygon o ran gwaith. Mewn gwersi cerddoriaeth, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi datblygu sgiliau TG defnyddiol wrth ddefnyddio rhaglenni golygu digidol a dilyniannu. Mewn dosbarth a oedd yn arwain at gymhwyster glanhau, defnyddiodd y dysgwyr TG i ddysgu sut i leihau peryglon yn y gweithle.

5.9 Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn pynciau a oedd o ddiddordeb arbennig iddynt, gan symud ymlaen yn aml i gymwysterau lefelau uwch. Roedd ehangder y cwricwlwm yn caniatáu i bron pob plentyn gymryd rhan mewn maes dysgu y nodwyd ei fod yn berthnasol i'w ddiddordebau, ei alluoedd neu ei brofiad. Er enghraifft, mewn gwersi cerddoriaeth, gwnaethant gynnydd da mewn cyfnod byr i ddatblygu dealltwriaeth o amseriad, rhythm a mynegiant cerddorol. Dysgodd rhai chwarae offerynnau cerdd i lefel gymwys. Ym maes Addysg Gorfforol, datblygodd plant sgiliau ffitrwydd a chwaraeon, gan elwa ar bartneriaeth y carchar gyda sefydliadau megis Dallaglio Rugby Works, a oedd wedi cynnig gwaith cyflogedig i un plentyn wrth adael y Parc.

5.10 Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall yn fras beth roedd angen iddynt ei wneud i gwblhau eu cymwysterau. Roedd gan bron pob un ohonynt dargedau wedi'u diffinio'n glir yn eu cynlluniau dysgu ac roeddent wedi ennill sawl cymhwyster yn yr ystod eang o gyrsiau byr yr oeddent yn eu dilyn. Aeth y mwyafrif ymlaen i gymwysterau lefel uwch yn ystod eu cyfnod yn yr uned plant.

5.11 Roedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac o gefndiroedd ethnig gwahanol yn perfformio ychydig yn well na dysgwyr yn gyffredinol.

Lles ac agweddau at ddysgu

5.12 Ymatebodd y plant yn dda iawn i ethos meithringar a gofalgar yr uned. Cafodd bron pob un o'r plant eu hannog i ymgysylltu'n dda mewn addysg ac i gyfrannu'n llawn yn y dosbarth.

5.13 Cafodd bron pob un o'r plant eu hannog i ymgysylltu'n dda mewn addysg ac i gyfrannu'n llawn yn y dosbarth. Roedd llawer wedi ymgolli'n llwyr mewn sesiynau. Dywedodd un dysgwr 'weithiau pan fydda i yn y wers yma, rwy'n anghofio fy mod i yn y carchar'.

5.14 Roedd y plant yn cyrraedd y gwersi'n brydlon yn gyson, ac yn setlo'n gyflym i dasgau.

5.15 Roedd presenoldeb y plant mewn dosbarthiadau yn ardderchog ac roedd eu hymddygiad yn rhagorol. Ni welsom unrhyw achosion o blant yn cael eu dychwelyd i'w celloedd oherwydd ymddygiad gwael yn y dosbarth.

5.16 Roedd pob plentyn yn dangos parch tuag at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Roeddent yn cymryd eu tro i gyfrannu a chefnogi ei gilydd yn effeithiol i gyflawni tasgau. Mewn gwersi dinasyddiaeth, roedd bron pob plentyn yn datblygu sgiliau pwysig o ran goddefgarwch, gwytnwch a pharch.

5.17 Roedd y plant yn falch iawn o'u gwaith ac yn awyddus i rannu eu cyflawniadau a'u llwyddiannau gydag ymwelwyr. Er enghraifft, wrth goginio roedd y plant eisiau i staff ac ymwelwyr flasu eu bwyd ac mewn gwersi gwaith coed, roeddent eisiau dangos beth roeddent wedi'i wneud ac egluro i bwy yr oeddent wedi'i wneud.

5.18 Mae plant wedi gwella eu dealltwriaeth o sut i osgoi aildroseddu mewn sawl dosbarth. Mewn un sesiwn, trafodwyd sut y gallai'r sgiliau yr oeddent yn eu dysgu eu helpu i ddod o hyd i waith a thorri'r cylch o ymddygiad troseddol.

5.19 Datblygodd llawer o ddysgwyr hyder mewn sesiynau, er enghraifft mewn gwersi cerddoriaeth roeddent yn falch ac yn ofalus wrth ysgrifennu a recordio caneuon, a oedd yn eu hannog i adeiladu ar eu cyflawniadau. Nododd rhai fod cerddoriaeth wedi eu helpu i leihau pryder a datblygu gwytnwch ers iddynt gyrraedd.

5.20 Dysgodd y plant am ffyrdd iach o fyw ar draws y cwricwlwm, er enghraifft mewn sesiwn goginio buont yn trafod dewisiadau bwyd iach a diogelwch bwyd. Mewn gwers gan Sefydliad Gwyddor Glanhau Prydain, dysgodd y plant am ddiogelwch yn y gweithle a'u cyfrifoldeb i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

5.21 Roedd llawer o arddangosfeydd ysgogol yn yr ardal addysg i hybu ymwybyddiaeth o ddatblygiad a ffyrdd o fyw iach.

Profiadau dysgu ac addysgu

5.22 Roedd y cwricwlwm yn cynnig ystod eang o bynciau a gweithgareddau i roi i blant y sgiliau yr oedd arnynt eu hangen i symud ymlaen i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar ôl eu rhyddhau.

5.23 Roedd athrawon yn meddu ar gymwysterau da ac yn fedrus iawn, gan weithio'n effeithiol fel tîm gydag arbenigwyr i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Gyda'i gilydd, roeddent yn darparu cymorth cadarn, unigol i blant.

5.24 Roedd adnoddau'r ystafelloedd dosbarth yn dda, gyda mynediad priodol at TG ac ystod eang o adnoddau dysgu. Roedd athrawon yn dangos gwaith y plant i ddathlu eu llwyddiant ac i ysgogi dysgwyr eraill. Roedd llawer o athrawon yn defnyddio TG yn dda i wella eu dulliau addysgu, gan ddefnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol i ennyn diddordeb y dysgwyr ar ddechrau'r sesiynau. Yn ddieithriad, roedd cyflwyniadau byrddau gwyn yr athrawon yn ysgogol ac yn darparu'n dda ar gyfer dysgwyr gydag ystod eang o arddulliau dysgu a galluoedd darllen.

5.25 Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn deall anghenion y dysgwyr yn dda iawn ac roeddent yn wybodus iawn am gynnydd a datblygiad y plant. Roedd bron pob aelod o staff yn rhannu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr mewn cyfarfodydd wythnosol ac roedd athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol wrth gynllunio sesiynau, fel eu bod yn darparu ar gyfer anghenion unigol pob dysgwr.

5.26 Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod dda o sgiliau addysgu i ymgysylltu, cefnogi ac asesu dysgwyr. Roeddent yn defnyddio sgiliau holi'n effeithiol i asesu dealltwriaeth plant o waith ac yn rhoi adborth cadarnhaol i'r plant i atgyfnerthu eu cynnydd.

5.27 Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio gwahaniaethu'n effeithiol yn y dosbarth, gan sicrhau bod dysgwyr o wahanol lefelau gallu yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

5.28 Roedd athrawon yn dangos parch mawr tuag at blant ac yn ymddwyn fel modelau rôl da. Roedd bron pob plentyn yn ymddwyn yn barchus yn ôl.

5.29 Roedd gan y staff ddisgwyliadau uchel, gan annog y plant i symud ymlaen a chyflawni y tu hwnt i'r safon yr oedd y plentyn yn credu ei bod yn bosibl.

Gofal, cefnogaeth ac arweiniad

5.30 Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn deall ac yn cadw at y trefniadau cadw pellter cymdeithasol a'r angen i gynnal profion llif unffordd yn brydlon os oeddent yn teimlo'n sâl.

5.31 Aseswyd pob plentyn yn brydlon ar ôl iddynt gyrraedd er mwyn pennu lefelau llythrennedd a rhifedd a nodi eu hanghenion dysgu.

5.32 Roedd athrawon yn cynnal adolygiadau diagnostig defnyddiol pellach i sicrhau bod y cymorth wedi'i dargedu yn diwallu anghenion pob dysgwr. Esboniodd y staff addysg yn glir i'r plant yr amrywiaeth o ddewisiadau addysgol oedd ar gael a oedd yn eu helpu i gynllunio'r ffordd orau o dreulio eu hamser yn y Parc.

5.33 Roedd system dracio gadarn ac effeithiol yn galluogi staff i ddangos bod cefnogaeth yn helpu dysgwyr i symud ymlaen. Roedd bron pob un o'r athrawon yn defnyddio'r system yn gyson ac yn rhannu gwybodaeth am ganlyniadau dysgwyr gyda'i gilydd.

5.34 Roedd y staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gefnogi dysgwyr unigol. Roeddent yn monitro ac yn briffio ei gilydd yn agos ar ymddygiad dysgwyr, eu cynnydd academaidd a'u presenoldeb. Roeddent yn diweddaru cynlluniau addysgol unigol plant yn rheolaidd. Roedd staff yn monitro cynnydd, ymddygiad ac anghenion plant agored i niwed yn effeithiol iawn, gan rannu gwybodaeth o fewn y tîm er mwyn gallu ymateb yn gyson ac ar y cyd i anghenion dysgwyr.

5.35 Cafodd rhai plant gyfle mewn sesiynau coginio i adlewyrchu eu diwylliant eu hunain drwy wneud prydau traddodiadol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

5.36 Roedd trefniadau llwyddiannus wedi cael eu gwneud drwy gydol y pandemig i alluogi plant i barhau i ddatblygu eu dulliau dysgu. Roedd cynllunio gofalus yn galluogi plant i gael mynediad at weithdai neu sesiynau yn y dosbarth, gan leihau eu risg o ddod i gysylltiad â heintiau ar yr un pryd. Roedd hyn yn galluogi plant i barhau i ddysgu, ennill cymwysterau a chadw eu hunain yn brysur mewn ffordd bwrpasol.

5.37 Roedd dulliau cyfathrebu o fewn y tîm addysg a gydag uwch reolwyr yn effeithiol iawn wrth ddatblygu rhaglenni wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion dysgwyr.

5.38 Roedd staff a rheolwyr carchardai yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd plant ac i rannu gwybodaeth am faterion sy'n dod i'r amlwg y gallai dysgwyr fod wedi bod yn eu profi. Roedd hyn yn helpu'r tîm i ddeall anghenion newidiol y plant ac i addasu eu dulliau addysgu i ddarparu gwasanaeth deinamig a phriodol i bob dysgwr. Roedd y cydweithrediad da iawn a'r parch rhwng y staff addysg a'r staff adain yn galluogi'r tîm addysg i gynllunio addysg y plant yn dda.

5.39 Roedd y system gwybodaeth reoli a ddatblygwyd o'r newydd wedi cryfhau gwaith yr uned addysg o fonitro perfformiad plant. Roedd y system wedi gwella gallu rheolwyr i fonitro perfformiad ac ansawdd y ddarpariaeth addysg a sut y caiff ei chyflwyno, ac i sicrhau bod yr holl staff yn gwneud cyfraniad effeithiol at gynnydd plant wrth ddysgu.

5.40 Roedd pennaeth yr uned i blant yn gweithio'n effeithiol gyda phennaeth dysgu'r carchar i fonitro perfformiad yn erbyn targedau. Roedd y rheolwyr yn defnyddio data yn effeithiol i gynllunio a gwerthuso'r

ddarpariaeth. Roedd yr holl staff yn deall eu targedau unigol ar gyfer cyflawni nodau'r dysgwyr.

5.41 Roedd y rheolwyr yn cynnal hunanwerthusiad cynhwysfawr ac onest. Roeddent yn defnyddio eu canfyddiadau fel sail i broses o gynllunio datblygu ansawdd, a oedd yn dadansoddi tystiolaeth ac yn nodi cynlluniau priodol ar gyfer gwella. Roeddent yn dyrannu adnoddau'n effeithiol i adlewyrchu eu cynlluniau gweithredol. Roedd arweinwyr a rheolwyr wedi dechrau rhoi cynllun ar waith i gynyddu'r lle sydd ar gael i'r uned i blant er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

5.42 Roedd yr arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth am y farchnad lafur wrth adolygu a chynllunio datblygiad gwasanaethau. Roeddent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i werthuso priodoldeb y ddarpariaeth yn rheolaidd i ddiwallu anghenion yr economi.

Section 6 Ailsefydlu

Mae plant yn cael eu helpu'n effeithiol i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned ac i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

Plant, teuluoedd a chyswllt â'r byd y tu allan

Deilliannau disgwyliedig: Mae rheolwyr yn cefnogi plant i sefydlu a chynnal cyswllt gyda theuluoedd, gan gynnwys rhieni corfforaethol, a ffynonellau eraill o gefnogaeth yn y gymuned. Mae partneriaid cymunedol yn gyrru hyfforddiant a chynllunio remand ac mae teuluoedd yn rhan o'r holl benderfyniadau mawr am blant sy'n cael eu cadw'n gaeth.

6.1 Roedd pellter o adref yn parhau yn her i blant yn y Parc ac, adeg yr arolygiad, roedd pob plentyn oni bai am un dros 50 milltir o'i gartref. Roedd arweinwyr wedi cydnabod yr anhawster posibl gyda chyswllt teuluoedd ac wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod plant yn gallu cynnal perthynas gyda theulu a ffrindiau tra'u bod yn y ddalfa.

6.2 Cafodd y canlyniad da hwn ei sicrhau drwy ddarparu mynediad sylweddol at alwadau ffôn a mynediad dyddiol at alwadau fideo diogel (gweler y Rhestr termau) ac ymweliadau cymdeithasol, a oedd ar gael fin nos, ar ddydd Sadwrn ac am ddwy awr ar ddydd Sul. Yn ein harolwg, dywedodd 100% o blant eu bod yn cael defnyddio'r ffôn bob dydd. Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd 579 o alwadau fideo wedi cael eu gwneud. Mewn un enghraifft, roedd plentyn wedi gallu defnyddio galwad fideo i ffonio ei fam neu ei nain bob diwrnod gwaith ar ôl gorffen ei addysg.

Ystafell galwadau fideo

Ardal ymweliadau'r uned i blant

6.3 Roedd y plant yn gadarnhaol am yr anogaeth a gawsant gan staff i gynnal perthnasoedd ac, yn ein harolwg, dywedodd 83% o blant eu bod yn cael help i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Roedd y gweithiwr ymgysylltu'n rhagweithiol â theuluoedd wedi nodi'r plant nad oeddent wedi trefnu galwad fideo neu ymweliad cymdeithasol yn

ddiweddar ac wedi siarad â nhw i wneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r system archebu a'u hannog i'w defnyddio.

6.4 Roedd diwrnod coginio ar y Sul wedi'i drefnu'n ddiweddar ar gyfer plant a'u teuluoedd, a oedd wedi para tair awr. Gallai'r plant goginio bwyd cartref fel cyri a reis cyw iâr ac wy wedi'i ffrio a'i fwyta gyda'u teuluoedd. Cafwyd adborth cadarnhaol gan blant a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai a oedd wedi teithio'n bell. Trefnwyd rhaglen o ddigwyddiadau teulu tebyg ar gyfer y dyfodol.

6.5 Adeg yr arolygiad roedd dau o blant y Parc yn dadau. Roeddent yn cael cefnogaeth dda ac, mewn un achos, roedd y staff wedi helpu'r plentyn i feithrin perthynas gyda'i ferch fach nad oedd erioed wedi'i chyfarfod cyn mynd i'r ddalfa. Roedd y tadau hyn yn cael ymweliadau â'u plant mewn ystafell dawel ar wahân i'r brif neuadd ymweliadau, a oedd yn syniad ystyriol.

6.6 Roedd yr amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael i blant a theuluoedd a'r anogaeth gan staff yn galluogi'r plant yn y Parc i gynnal eu perthynas â theulu a ffrindiau yn fwy llwyddiannus nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Gwelsom dystiolaeth o gynnwys teuluoedd fel mater o drefn mewn adolygiadau cynllunio dedfrydau a chyfarfodydd trosglwyddo cyn i'r plant symud i'r ystâd oedolion, a oedd yn arfer da.

Cyn rhyddhau ac ailsefydlu

Deilliannau disgwyliedig: Mae cynllunio ar gyfer rhyddhau neu drosglwyddo plentyn yn dechrau pan fydd yn cyrraedd y sefydliad. Mae ailsefydlu yn sail i waith y sefydliad cyfan, gyda chymorth partneriaethau strategol yn y gymuned ac yn seiliedig ar asesiad o risg ac angen plentyn. Mae cynllunio parhaus yn sicrhau trosglwyddiad di-dor i'r gymuned.

6.7 Roedd y gwaith o reoli ailsefydlu yn gwella'n strategol. Yn ddiweddar iawn, cwblhawyd dadansoddiad o anghenion gan dîm seicoleg newydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa a ddangosodd fod cyfran uchel o blant wedi gweld neu brofi camdriniaeth a bod y rhan fwyaf yn y ddalfa am droseddau treisgar. Nid oedd yr arweinwyr eto wedi defnyddio argymhellion y dadansoddiad o anghenion fel sail i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer lleihau aildroseddu.

6.8 Roedd y tîm o weithwyr achos anghenion, ymgysylltu a lles (NEWTs) wedi cael cyswllt rheolaidd ac ystyrlon â'r plant ac roedd eu gwybodaeth am achosion unigol yn drawiadol. Roedd y rheolwyr yn goruchwylio'r NEWTs yn dda bellach. Roedd gan y tîm oruchwyliaeth un-i-un a grŵp gyda'r rheolwr ymarfer effeithiol a oedd yn helpu i ddatblygu cysondeb, annog ymarfer da a nodi anghenion hyfforddi. Roedd tystiolaeth o'r gwaith yr oedd y NEWTs yn ei wneud ar y Fframwaith Ceisiadau Cyfiawnder Ieuenctid (YJAF) yn dda iawn.

6.9 Bu'r NEWTs yn ymdrechu'n galed ym mhob achos i ganfod a chysylltu â gweithwyr perthnasol o asiantaethau cymunedol, megis tîm

troseddau ieuenctid (TTI) neu weithiwr cymdeithasol y plentyn, a'u hannog i gysylltu'n uniongyrchol â'r plentyn. Roedd y dull hwn yn arbennig o lwyddiannus ac yn helpu plant i gynnal perthynas gyda gwasanaethau cefnogi yn y gymuned i baratoi ar gyfer eu rhyddhau.

6.10 Roedd y cynllunio'n rhesymol ar gyfer y nifer cynyddol o blant yr oedd angen eu trosglwyddo i garchardai i oedolion. Adeg ein harolygiad, byddai angen i saith o blant a gafodd eu dedfrydu symud i garchardai i oedolion pan oeddent yn 18 oed. Trafodwyd newidiadau mewn adolygiadau cynllunio dedfrydau, a chynhaliwyd cyfarfodydd trosglwyddo gyda'r sefydliad a oedd yn eu derbyn tua mis cyn y broses drosglwyddo. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys aelod o staff, rheolwr troseddwyr o'r carchar fel arfer, o'r sefydliad sy'n derbyn ac asiantaethau eraill megis y TTI, y gwasanaeth prawf a theulu'r plentyn lle bo hynny'n bosibl. Sefydlwyd cysylltiadau da gyda charchardai i oedolion ifanc er mwyn gwella'r wybodaeth roedd y plant a'u teuluoedd yn ei chael cyn y trosglwyddo.

6.11 Cafodd plant a oedd yn gymwys gymorth i gael mynediad at gyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC), rhyddhau'n gynnar a rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL, gweler y Rhestr termau). Roedd dau blentyn wedi defnyddio ROTL yn y chwe mis blaenorol: roedd un wedi cwrdd â chynghorydd personol yn y gymuned ac roedd y llall wedi mynd i apwyntiad banc. Trafodwyd y targedau yr oedd angen i blant weithio tuag atynt i gyflawni ROTL mewn cyfarfodydd cynllunio dedfrydau.

Cynllunio hyfforddiant a rheoli remánd

Deilliannau disgwyliedig: Mae gan bob plentyn gynllun rheoli hyfforddiant neu remánd sy'n seiliedig ar asesiad unigol o risg ac angen. Mae staff perthnasol yn cydweithio â phlant a'u rhieni neu ofalwyr i lunio ac adolygu eu cynlluniau. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhoi ar waith drwy gydol cyfnod y plentyn yn y ddalfa ac ar ôl hynny er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r gymuned.

6.12 Roeddem wedi adolygu 10 achos, ac roedd gan bob un ohonynt gynllun cyfoes a oedd yn cael ei rannu'n briodol ag asiantaethau cymunedol a oedd yn defnyddio'r Fframwaith. Ym mhob achos, roedd tystiolaeth o gyfathrebu effeithiol a chyson rhwng NEWTs, Timau Troseddau Ieuenctid, y gwasanaeth prawf, gweithwyr cymdeithasol a rhieni er mwyn cyfrannu at dargedau realistig ar gyfer y plant.

6.13 Roedd y gwaith cynllunio dedfrydau yn yr achosion a adolygwyd gennym yn dda. Yn ein harolwg, dywedodd 67% o blant fod ganddynt gynllun a dywedodd 100% o'r plant hyn eu bod yn deall beth roedd angen iddynt ei wneud i gyflawni eu hamcanion a'u targedau. Adlewyrchwyd hyn yn ein cyfweliadau lle gallai plant adnabod a disgrifio eu targedau.

6.14 Adolygwyd cynlluniau remánd a dedfryd plant yn rheolaidd a lluniwyd gweithgareddau yn y carchar o'r adolygiadau. Roedd y ddau gyfarfod

cynllunio dedfryd a remánd a welsom o ansawdd arbennig o uchel ac yn cael presenoldeb amrywiaeth o gyfranogwyr, gan gynnwys asiantaethau cymunedol a theuluoedd. Gwnaethpwyd cofnodion cynhwysfawr yn y cyfarfodydd hyn o'r gwaith a wnaethpwyd ym mhob maes, a'r cynnydd.

6.15 Roedd y plant yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu cynlluniau dedfryd, yn enwedig ym maes addysg. Yn ein cyfweliadau, dywedodd y plant fod yr addysg yn y Parc yn arbennig o dda, gan roi sylwadau cadarnhaol am ehangder y cwricwlwm a'r cyfle i astudio pynciau newydd megis coginio a cherddoriaeth.

Diogelu'r cyhoedd

6.16 Roedd y gweithdrefnau i ganfod plant a allai beri risg i'r cyhoedd yn gadarn. Adeg yr arolygiad, roedd saith o blant yn destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth (MAPPA), cynnydd ers yr arolygiad blaenorol. Roedd pump o'r rhain yn gofyn am reolaeth lefel 2 neu 3, a oedd yn galw am gyfraniad gweithredol gan asiantaethau fel y TTI, yr heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf i reoli'r risg o niwed difrifol. Roedd NEWTs yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r asiantaethau hyn ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol drwy rith-gyfarfodydd MAPPA a chyfraniadau ysgrifenedig yn disgrifio ymddygiad y plentyn yn y ddalfa (MAPPA-F).

6.17 Roedd yr arweinwyr a'r NEWTs yn adolygu'r plant a oedd yn destun MAPPA a oedd fod i gael eu rhyddhau mewn cyfarfodydd ailsefydlu chwarterol ac yn ystod sesiynau goruchwylio achosion rheolaidd. Cafodd y plant a oedd fod i symud i garchardai i oedolion eu hadolygu mewn cyfarfodydd trosglwyddo. Roedd y cynlluniau rheoli risg a adolygwyd gennym o ansawdd rhesymol a chawsant eu llywio gan drafodaethau gyda'r TTIau ynghylch y risg o niwed ar ôl eu rhyddhau.

6.18 Roedd gweithdrefnau eraill ar gyfer diogelu'r cyhoedd i lywio'r gwaith o reoli risg yn gadarn. Nid oedd yr un plentyn yn cael ei fonitro drwy bost neu dros y ffôn adeg yr arolygiad, ond fe wnaethom adolygu'r logiau monitro blaenorol a oedd yn gyfredol ac ar gael i'r NEWTs.

Plant amhenodol a rhai sydd wedi'u dedfrydu am gyfnod hir

6.19 Nid oedd y gefnogaeth ar gyfer y nifer cynyddol o blant a oedd yn cael dedfryd amhenodol neu dymor hir wedi'i datblygu'n ddigonol ac roedd yn rhy gyfyngedig o'i gymharu â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Adeg ein harolygiad, roedd wyth o blant yn cael eu cadw ar remánd neu'n bwrw dedfrydau am lofruddiaeth neu ymgais i lofruddio, cynnydd ers yr arolygiad blaenorol.

6.20 Roedd plant a oedd wedi cael dedfrydau amhenodol neu ddedfrydau hir yn cael cyswllt rheolaidd gyda'u NEWT ac yn cael yr un cyfarfodydd adolygu cynllunio dedfryd â phlant eraill yn y Parc. Cynhaliwyd paneli asesu risg i ddedfrydwyr oes aml-asiantaeth ar gyfer plant priodol a chyfrannodd y gwasanaeth seicoleg YCS a gyflwynwyd yn ddiweddar at gynllunio dedfrydau ac adroddiadau parôl. Roedd cynlluniau ar y

gweill i'r tîm ddechrau darparu'r ymyriad 'Life Minus Violence - Enhanced' (LMV-E), a oedd yn ceisio gweithio un-i-un gyda phlant ar y lefel uchaf o risg o drais.

Plant sy'n derbyn gofal

6.21 Yn ein harolwg, dywedodd 47% o blant eu bod wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol. Roedd data'n dangos bod 17 o'r 19 o blant yn y Parc adeg yr arolygiad yn ymwneud â gwasanaethau plant. Ym mis Mawrth 2022 yn unig, roedd wyth o blant wedi derbyn gofal ar ôl cael eu remandio yn y ddalfa.

6.22 Roedd y swydd gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn wag am gyfnod estynedig ac roedd diffyg eiriolaeth annibynnol dros blant sy'n derbyn gofal. Roedd NEWTs yn gwneud eu gorau i lenwi'r bwlch drwy herio awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hawliau a bod cyfarfodydd adolygu'n cael eu cynnal pan oedd angen. Fe wnaeth NEWTs hefyd herio Timau Troseddau Ieuenctid pan nad oedd plant a oedd wedi dioddef camfanteisio wedi cael eu cyfeirio at y mecanwaith cyfeirio cenedlaethol.

Cynllunio ar gyfer ailintegreiddio

Deilliannau disgwyliedig: Rhoddir sylw i anghenion ailsefydlu plant cyn eu rhyddhau. Defnyddir ymateb aml-asiantaeth effeithiol i ddiwallu anghenion penodol pob plentyn unigol er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ailintegreiddio llwyddiannus i'r gymuned.

6.23 Roedd y cynllunio ar gyfer ailintegreiddio a'r canlyniadau i blant ar ôl eu rhyddhau wedi gwella. Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 25 o blant wedi cael eu rhyddhau, ac roedd cyfeiriad y rhan fwyaf ohonynt wedi cael ei gadarnhau cyn eu cyfarfod rhyddhau terfynol. Roedd tri phlentyn wedi cael cadarnhad hwyr ac mewn un achos nid oedd plentyn yn gwybod ble y byddai'n byw tan y diwrnod cyn ei ddyddiad rhyddhau. Cafodd hyn effaith negyddol ar gynlluniau'r plentyn o ran addysg ac iechyd. Roedd arweinwyr wedi sicrhau bod prosesau uwchgyfeirio ar gyfer materion yn ymwneud â llety'n cael eu defnyddio a bod NEWTs yn cael eu cyfeirio'n rheolaidd at Barnardo's a Howard League i gael cyngor pan fo angen.

6.24 Roedd y canlyniadau ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant ar ôl cael eu rhyddhau yn eithaf da ac yn well nag a welwn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Nid oedd y rhan fwyaf o blant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wrth gyrraedd y Parc, ond yn ystod y 12 mis diwethaf roedd gan 19 leoliad mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roedd hyn yn cynnwys prentisiaethau, coleg ac, mewn rhai achosion, dychwelyd i addysg amser llawn. Roedd pedwar o blant wedi cael eu cyfeirio at gynghorwyr gyrfa, ond roedd dau blentyn heb unrhyw drefniadau o gwbl.

6.25 Roedd NEWTs yn mynd i gyfarfodydd gofal drwy'r broses yn y gymuned ar ôl i blant gael eu rhyddhau, ond nid oedd y cyfarfodydd hyn yn sicrhau canlyniadau ailsefydlu cynaliadwy i blant eto.

Ymyriadau

Deilliannau disgwyliedig: Gall plant gael gafael ar ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo adsefydlu llwyddiannus.

6.26 Cyn dechrau'r ymyriadau, roedd NEWTs wedi cwblhau asesiad parodrwydd gyda phlant i nodi'r ffactorau unigol yr oedd angen eu hadlewyrchu wrth gyflwyno'r ymyriad. Roedd hyn hefyd yn helpu i sefydlu cymhelliant plentyn i gymryd rhan yn yr ymyriad yn llwyddiannus. Darparwyd dau ymyriad: roedd pump o blant wedi cwblhau cymell i gyflawni (M2A) a oedd yn canolbwyntio ar osod nodau; ac roedd 'amserol' wedi'i anelu at blant sy'n ymwneud â thrais tra'r oeddent yn y ddalfa. Roedd dau blentyn wedi dechrau'r rhaglen hon yn ddiweddar.

6.27 Roedd gan arweinwyr gynlluniau i gynyddu nifer yr ymyriadau. Roedd LMV-E i fod i gael ei gyflwyno gan y tîm seicoleg (gweler paragraff 6.20) ac roedd NEWTs yn gweithio ar raglen o waith seicoaddysgol, fel ymwybyddiaeth o droseddau gyda chyllyll, a oedd yn canolbwyntio ar ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu.

Iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau

6.28 Roedd y nyrsys yn cyfarfod y plant i gynllunio ar gyfer trosglwyddo i'r ystâd oedolion neu i'w rhyddhau bedair wythnos ymlaen llaw. Gwelwyd pob plentyn ar y diwrnod rhyddhau neu'r cyfnod pontio a rhoddwyd meddyginiaeth iddynt fynd adref gyda nhw pan oedd hynny'n briodol.

6.29 Darparwyd cefnogaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau cyn rhyddhau neu drosglwyddo, ac roedd y gweithiwr seicogymdeithasol yn cysylltu ag asiantaethau perthnasol a thimau carchardai i ddarparu parhad gofal. Roedd y gweithiwr seicogymdeithasol yn gweld y plant ar ddiwrnod eu rhyddhau ac un mis yn ddiweddarach i'w cyfeirio at wasanaethau perthnasol os oedd angen.

Section 7 Crynodeb o'r prif bryderon ac argymhellion

Isod ceir rhestr o bryderon ac argymhellion rheolaidd a newydd yn yr adroddiad hwn.

Prif bryderon ac argymhellion

7.1 Pryder allweddol (1.41): Nid oedd gan yr uned weithiwr cymdeithasol penodol am gyfnod estynedig. Roedd hyn wedi lleihau'r gefnogaeth a'r eiriolaeth a oedd ar gael i'r gyfran gynyddol fawr o blant a oedd yng ngofal eu hawdurdod lleol neu a oedd yn ymwneud rhywfaint â'r gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd gan reolwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant ffynhonnell o arbenigedd i gyfeirio ati ar y safle.

Prif argymhelliad: Dylai'r uned fod â gweithiwr cymdeithasol penodol ar y safle.
(I'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa)

7.2 Pryder allweddol (1.42): Roedd plentyn sâl iawn a oedd angen bod yn yr ysbyty wedi cael ei roi yn y Parc a'i wahanu am 14 diwrnod yn 2021 cyn trefnu ei symud i'r ysbyty.

Prif argymhelliad: Ni ddylid anfon plant sydd angen mynd i'r ysbyty i'r carchar fel man diogel.
(I'r Weinyddiaeth Gyfiawnder)

7.3 Pryder allweddol (1.43): Nid oedd goruchwyliaeth na chyfrifoldeb dros waith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Parc ac roedd gwaith dadansoddi data yn dal yn gyfyngedig. Roedd y plant roedden ni wedi siarad â nhw yn teimlo bod y staff yn eu cefnogi ac roedd eu hanghenion yn cael eu diwallu, ond gallai bylchau yn y ddarpariaeth achosi risgiau.

Prif argymhelliad: Dylai arweinwyr oruchwylio gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol bob amser a dylid craffu'n drylwyr ar ddata, gan ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig.
(I'r cyfarwyddwr)

7.4 Pryder allweddol (1.44): Nid oedd y gefnogaeth ar gyfer y nifer cynyddol o blant gyda dedfrydau amhenodol neu dymor hir wedi'i datblygu'n ddigonol ac roedd yn gyfyngedig o'i gymharu â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd mwy o blant nag yn yr arolygiad blaenorol yn cael eu cadw ar remand neu'n bwrw dedfrydau am lofruddiaeth neu ymgais i lofruddio.

Prif argymhelliad: Dylid cael ystod briodol o gefnogaeth i gwrdd â risgiau ac anghenion plant sy'n bwrw dedfrydau amhenodol neu hir.
(I'r cyfarwyddwr)

Argymhellion

7.5 Argymhelliad (3.18): Ni ddylid cynnal gwiriadau arsylwadol ar blant ar adegau rhagweladwy.
(I'r cyfarwyddwr)

7.6 Argymhelliad (3.39): Dylai rheolwyr sicrhau bod ôl-drafodaethau yn dilyn ataliaeth yn ddealladwy ac yn ddefnyddiol i blant.
(I'r cyfarwyddwr)

7.7 Argymhelliad (4.8): Dylai ffenestri fod yn rhydd o raffiti a baw, a dylid gwneud gwaith cynnal a chadw ar fentiau aer sydd wedi torri.
(I'r cyfarwyddwr)

7.8 Argymhelliad (4.16): Dylai'r ymgynghoriad gynnwys barn pob plentyn a dylid mynd i'r afael â chamau gweithredu mewn modd amserol.
(I'r cyfarwyddwr)

7.9 Argymhelliad (4.56): Dylai plant gael mynediad at ystod ehangach o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd.
(I'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf/y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa a'r darparwr gofal iechyd)

7.10 Argymhelliad (4.57): Dylai FACTS gyfrannu at y system cofnodion clinigol yn y carchar i sicrhau bod un cofnod cynhwysfawr o asesiadau, gofal a thriniaeth ar gyfer plant yn eu gofal.
(I'r cyfarwyddwr a'r darparwr gofal iechyd)

7.11 Argymhelliad (4.72): Dylai plant gael mynediad at driniaethau lleddfu poen yn brydlon dros y penwythnos a thros nos.
(I'r cyfarwyddwr a'r darparwr gofal iechyd)

Section 8 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu a chraffu llawn diwethaf

Argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf

Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad llawn diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaethpwyd, wedi'u trefnu dan y pedwar prawf ar gyfer sefydliad iach. Os yw argymhelliad wedi'i ailadrodd yn y prif adroddiad, darperir ei rif paragraff newydd hefyd.

Diogelwch

Caiff plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, eu dal yn ddiogel.

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019, roedd y prosesau derbyn yn gyflym ac roedd y drefn gynefino wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y trefniadau amddiffyn plant wedi'u gwreiddio'n dda. Roedd y gofal i blant mewn perygl o hunan-niweidio yn dda ond roedd y monitro'n rhy hawdd ei ragweld. Roedd lefelau trais wedi gostwng ond roeddent yn dal yn uchel. Defnyddiwyd cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd yn effeithiol i fynd i'r afael â bwlio a thrais a chefnogi dioddefwyr. Roedd y cynllun cymell yn ysgogol ac roedd y berthynas dda rhwng staff a phlant yn cefnogi rheoli ymddygiad yn effeithiol. Roedd y defnydd o rym yn dal yn uchel ac roedd y drefn lywodraethu'n dda. Dim ond am gyfnodau byr iawn y defnyddiwyd gwahanu ac roedd yr oruchwyliaeth wedi gwella. Roedd y canlyniadau i blant yn eithaf da yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Argymhelliad allweddol

Dylai GCPEM sicrhau bod pob plentyn yn y Parc yn gallu gwneud galwadau ffôn uniongyrchol ar eu diwrnod cyntaf yn y ddalfa. (S43)
Heb ei gyflawni

Argymhellion

Ni ddylid cynnal gwiriadau arsylwadol ar blant ar adegau rhagweladwy. (1.17)
Heb ei gyflawni (Argymhelliad wedi ei ailadrodd, 3.18)

Ni ddylid defnyddio prosesau monitro CCTV yn lle rhyngweithio ystyrlon rhwng pobl ac arsylwi personol. (1.18)
Wedi'i gyflawni

Dylai pob plentyn gael cyfle i geisio eiriolaeth mewn da bryd cyn cael ei ddyfarnu. (1.36)
Wedi'i gyflawni

Gofal

Mae’r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas.

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019, roedd y plant yn gadarnhaol am y staff a gwelsom ryngweithio da, gofalgar drwy gydol yr arolygiad. Roedd y cysylltiadau da hyn yn cefnogi canlyniadau ym mhob agwedd ar fywyd yn y Parc. Roedd safon y llety’n dda ar y cyfan ac roedd y systemau cwyno a gwneud cais yn gweithio’n dda. Roedd y plant yn gallu bwyta eu holl brydau gyda’i gilydd, ond roedd angen gwella ansawdd y bwyd. Yn gyffredinol, mae gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn diwallu anghenion unigol. Roedd y ddarpariaeth ffydd yn dal yn dda. Roedd gwasanaethau gofal iechyd yn dal yn dda ar y cyfan ond roedd diffygion yn y gwasanaeth CAMHS. Roedd y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Argymhellion allweddol

Dylid craffu’n drylwyr ar ddata i sicrhau nad yw prosesau rheoli ymddygiad yn wahaniaethol. (S44)
Heb ei gyflawni

Dylai gwasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed ddarparu ystod addas o asesiadau, triniaeth ac ymyriadau ar gyfer plant yn unol â’r safonau cenedlaethol. (S45)
Heb ei gyflawni

Argymhellion

Dylai gwasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed gyfrannu cofnodion clinigol o ansawdd da at un cofnod iechyd cyfoes ar gyfer y plant yn eu gofal. (2.54)
Heb ei gyflawni

Dylai arferion llywodraethu gwybodaeth gyd-fynd â safonau proffesiynol. (2.55)
Heb ei gyflawni

Dylai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig ddarparu asesiadau, ymyriadau a chynlluniau rhyddhau digonol i wella canlyniadau i blant. (2.62)
Cyflawnwyd

Gweithgarwch pwrpasol

Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019, roedd amser allan o'r gell yn dal yn llawer gwell nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill ac yn ystod ein gwiriadau ar y gofrestr roedd pob plentyn allan o'u celloedd. Roedd cyfleusterau a mynediad i'r llyfrgell yn weddol dda ac roedd y ddarpariaeth Addysg Gorfforol yn ardderchog. Roedd y cyfraddau cyflawni wedi gwella o'r lefelau uchel a welwyd yn ein harolwg diwethaf. Mae plant ag anghenion ychwanegol a'r rhai o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig yn symud ymlaen ar yr un gyfradd â dysgwyr eraill. Roedd bron pob plentyn yn mynychu addysg yn rheolaidd ac yn datblygu agweddau da tuag at ddysgu. Roedd yr addysgu'n dda iawn; roedd gan athrawon ddisgwyliadau uchel o blant, roeddent yn gwahaniaethu'n dda er mwyn diwallu anghenion a chynllunio gwersi'n effeithiol. Roedd y rheolwyr yn cyflwyno cwricwlwm priodol gan roi i'r plant y gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen i symud ymlaen. Roedd y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Argymhellion

Dylid ehangu'r cwricwlwm sgiliau galwedigaethol fel bod plant yn cael mwy o gyfle i ymuno â chwrs galwedigaethol neu waith ar ôl cael eu rhyddhau. (3.12)
Cyflawnwyd yn rhannol

Dylid darparu ar gyfer plant sy'n siarad ieithoedd eraill er mwyn iddynt allu datblygu eu Saesneg llafar i lefel weithredol. (3.13)
Cyflawnwyd yn rhannol

Dylai rheolwyr sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar adnoddau dysgu rhithiol dibynadwy. (3.17)
Cyflawnwyd

Ailsefydlu

Mae plant yn cael eu helpu'n effeithiol i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned ac i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019, roedd y gefnogaeth i blant i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau yn dda iawn. Roedd bylchau wedi bod yn y gwaith o reoli ailsefydlu dros y flwyddyn flaenorol a oedd wedi arwain at golli rhywfaint o'r ddarpariaeth. Roedd gan y tîm ymgysylltu ag anghenion a lles lwythi achosion isel ac roedd yn cael cyswllt ystyrlon â phlant yn aml. Roedd presenoldeb da yn y cyfarfodydd cynllunio ac roedd staff preswyl yn eu cefnogi. Roedd staff y carchar yn dechrau herio partneriaid cymunedol i wella canlyniadau ailsefydlu i blant. Roedd trefniadau amddiffyn y cyhoedd yn rhesymol. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r staff, roedd achosion lle nad oedd llety'n cael ei gadarnhau'n ddigon cynnar i allu diwallu anghenion

addysg a gofal iechyd. Roedd y canlyniadau i blant yn eithaf da yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

Argymhelliad allweddol

Dylai arweinwyr a rheolwyr oruchwylio'n effeithiol y gwaith o gyflawni gwaith ailsefydlu i sicrhau bod asesiadau'n gadarn, bod anghenion plant yn cael eu diwallu a bod llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer pryderon. (S46)
Cyflawnwyd

Argymhellion

Dylai plant ar remánd sy'n trosglwyddo i garchardai i oedolion gael gwybodaeth lawn am y sefydliad y maent yn mynd iddo. (4.15)
Cyflawnwyd

Dylai'r rheolwyr oruchwylio pob achos risg uchel o niwed er mwyn sicrhau bod camau i liniaru'r risg y gallai plant ei pheri wedi cael eu cwblhau cyn eu rhyddhau. (4.27)
Cyflawnwyd

Dylai'r carchar sicrhau bod plant yn cael eu dyrannu i ymyriadau ar sail eu hymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu a'u dyddiad rhyddhau. (4.41)
Heb ei gyflawni

Argymhellion yr ymweliad craffu

Dyma restr o'r argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad yr ymweliad craffu ym mis Ebrill 2021. Os yw argymhelliad wedi'i ailadrodd yn y prif adroddiad, darperir ei rif paragraff newydd hefyd.

Dylai pobl ifanc deunaw oed a gedwir mewn sefydliadau plant gael eu cefnogi'n briodol yn ystod y cyfnod pontio i'r carchar mwyaf addas yn yr ystad i oedolion. (S3)
Cyflawnwyd

Dylid dod o hyd i lety addas i blant yn ddigon cynnar cyn iddynt gael eu rhyddhau er mwyn gallu cyflawni cynlluniau adsefydlu'n llawn. (S4)
Heb ei gyflawni

Appendix I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, dalfa'r heddlu a'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cynnwys crynodeb o amodau a thriniaeth carcharorion, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, Mae hunanladdiad yn bryder i bawb, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer sefydliadau plant, mae'r profion fel a ganlyn:

Diogelwch
Caiff plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, eu dal yn ddiogel.

Gofal
Mae'r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas.

Gweithgarwch pwrpasol
Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

Ailsefydlu
Mae plant i bob pwrpas yn cael help i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned ac i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

O dan bob prawf, rydym yn asesu'r canlyniadau i blant ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posibl: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi roi sylw iddynt.

Mae'r canlyniadau i blant yn dda.
Nid oes unrhyw dystiolaeth bod canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

Mae’r canlyniadau i blant yn eithaf da.
Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fechan o feysydd. I’r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

Nid yw’r canlyniadau i blant yn ddigon da.
Ceir tystiolaeth bod canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn sawl maes neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i’w lles. Mae problemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt , yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

Mae’r canlyniadau i blant yn wael.
Mae tystiolaeth bod y canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan arferion cyfredol. Methir â sicrhau hyd yn oed triniaeth ddigonol i blant a/neu eu hamodau. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at un o’r canlynol:

Prif bryderon ac argymhellion: nodi’r materion sydd bwysicaf i wella canlyniadau i blant ac sydd wedi'u cynllunio i helpu sefydliadau i flaenoriaethu a mynd i’r afael â’r gwendidau yn nhriniaeth ac amodau plant.

Argymhellion: bydd angen newid sylweddol a/neu adnoddau newydd neu wedi’u hailgyfeirio, felly nid oes modd eu cyflawni ar unwaith, a byddant yn cael eu hadolygu i’w rhoi ar waith mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Enghreifftiau o arferion cadarnhaol nodedig: gwaith arloesol neu ymarfer sy’n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gall sefydliadau eraill ddysgu ohonynt. Mae arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o gan lyniadau da i blant; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni’r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu o’r ymarfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon o blant a staff; trafodaethau gyda phlant; trafodaethau gyda staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi’i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau’n ddirybudd ac maent yn cynnwys dilyn argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Cynhelir pob arolygiad o garchardai ar y cyd ag Estyn neu Ofsted (Lloegr), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) ac weithiau Arolygiaeth Prawf EM. Mae’r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau ein harchwiliad yn erbyn y pedwar prawf sefydliad iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein Disgwyliadau. *Meini prawf ar gyfer asesu'r ffordd y caiff plant ac amodau eu trin mewn carchardai* (Fersiwn 4, 2018) (ar gael ar ein gwefan yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/our-expectations/children-and-young-people-expectations/). Mae'r rhifau cyfeirnod ar ddiwedd rhai argymhellion yn dangos eu bod yn cael eu hailadrodd ac yn darparu lleoliad paragraff yr argymhelliad blaenorol yn yr adroddiad diwethaf. Mae Adran 7 yn rhestru'r holl argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Mae Adran 8 yn rhestru argymhellion yr arolygiad llawn blaenorol (a'r ymweliad craffu lle bo hynny'n berthnasol), a'n hasesiad o a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o blant a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Atodiad II: Rhagor o adnoddau). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd yna mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth mewn canlyniadau.

Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

Martin Lomas	Dirprwy brif arolygydd
Angus Jones	Arweinydd tîm
Liz Calderbank	Arolygydd
Angela Johnson	Arolygydd
Lindsay Jones	Arolygydd
Chelsey Pattison	Arolygydd
Rebecca Stanbury	Arolygydd
Donna Ward	Arolygydd
Rachel Duncan	Ymchwilydd
Amilcar Johnson	Ymchwilydd
Joe Simmonds	Ymchwilydd
Sarah Goodwin	Prif arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol
Claire Price	Arolygydd Arolygiaeth Iechyd Cymru
Alun Connick	Prif arolygydd Estyn
David Tiddy	Arolygydd Estyn

Appendix II Rhestr termau

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws. Os bydd angen eglurhad arnoch o unrhyw dermau eraill, edrychwch ar y rhestr dermau hirach sydd ar gael ar ein gwefan yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

Lle byw arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol
CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl le byw ardystiedig mewn sefydliad ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, megis celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg difrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i redeg y drefn a gynlluniwyd yn briodol.

Cynllun cymorth cadw yn y ddalfa (CuSP)
Dull cynllunio gofal sy'n rhoi swyddog personol i bob person ifanc weithio gydag ef bob wythnos er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chysondeb.

Arweinydd
Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn yr ystad ieuenctid yn y ddalfa. Byddwn yn cyfeirio ein naratif ar lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r gallu mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

Nodweddion Gwarchodedig
Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

Cynllun adfer
Mae cynlluniau adfer yn cael eu cyhoeddi gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM. Eu nod yw sicrhau cysondeb wrth i lywodraethwyr wneud penderfyniadau, drwy nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i garchardai symud o'r drefn fwyaf cyfyngedig (4) i'r lleiaf cyfyngedig (1) wrth iddynt lacio cyfyngiadau COVID-19.

Statws cyfyngedig
Mae statws cyfyngedig yn cyfateb i gategori A yn ystad y dynion sy'n oedolion. Mae'n berthnasol i unrhyw blentyn sydd wedi'i gael yn euog neu ar remánd, y byddai dianc yn peri risg ddifrifol i'r cyhoedd.

Uned cohort dros dro (RCU)
Uned lle mae carcharorion sydd newydd gyrraedd yn cael eu cadw mewn cwarantin am rhwng saith a 10 diwrnod.

Galwadau fideo diogel
System galwadau fideo ddiogel a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn llwytho ap i lawr i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu ymweliad, rhaid i ddefnyddwyr lwytho ID dilys i fyny.

Pecyn gofal cymdeithasol
Lefel o ofal personol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn dilyn asesiad o anghenion cymdeithasol a wnaed gan yr awdurdod lleol (hynny yw, cymorth gydag ymolchi, mynd i'r bath/cawod, mynd i'r toiled, gweithgareddau byw bob dydd ayb, ond nid gofal meddygol).

Amser allan o'r gell
Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgaredd pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd plant allan o'u celloedd i gysylltu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu i wneud galwadau ffôn.

Appendix III Rhagor o adnoddau

Mae rhagor o adnoddau y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EM (maent hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau mewn print a ddosbarthwyd i'r sefydliad). Dyma'r adnoddau ar gyfer yr adroddiad hwn:

Proffil poblogaeth sefydliad

Rydym yn gofyn am broffil poblogaeth o bob sefydliad fel rhan o'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

Arolwg o blant – methodoleg a chanlyniadau

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o blant yn y sefydliad ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a'r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau'r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

Arolwg o staff y sefydliad

Gwahoddir staff y sefydliad i lenwi arolwg staff. Cyhoeddir y canlyniadau ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

Hawlfraint y Goron 2022

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
3ydd llawr
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EM oni nodir yn wahanol.